



Rhagolwg trethi Cymreig

Rhagfyr 2024

Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad	1
	Cefndir	1
	Amserlen y rhagolygon	3
	Strwythur y ddogfen.....	4
Pennod 2	Cyfraddau treth incwm Cymru	5
	Cyflwyniad	5
	Cyfraddau treth incwm Cymru	5
	Methodoleg	7
	Y Rhagolwg Diweddaraf.....	19
	Ansicrwydd Allweddol	23
	Box 2.1: Gwerthuso ein rhagolygon ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23	25
Pennod 3	Treth trafodiadau tir	27
	Cyflwyniad	27
	Treth trafodiadau tir.....	27
	Methodoleg rhagweld.....	27
	Penderfynyddion y farchnad eiddo o'r rhagolwg	28
	Tueddiadau mewn derbyniadau LTT.....	32
	Y Rhagolygon LTT diweddaraf	33
	Risgiau ac ansicrwyddau	36
Pennod 4	Treth gwarediadau tirlenwi.....	38
	Cyflwyniad	38
	Treth gwarediadau tirlenwi.....	38
	Methodoleg y rhagolwg	38
	Y Rhagolwg treth gwarediadau tirlenwi.....	42
	Risgiau ac ansicrwyddau	44
Atodiad A	Rhagolygon sy'n ofynnol ar gyfer yr addasiadau grant bloc.....	48
	Mynegai siartiau a thablau.....	52

1 Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Sefydlwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn 2010 i ddarparu gwasanaeth dadansoddi annibynnol ac awdurdodol o gyllid cyhoeddus y DU. Ochr yn ochr â Chyllidebau Llywodraeth y DU a datganiadau cyllidol eraill rydym yn cynhyrchu rhagolygon ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus. Rydym yn cyhoeddi'r rhain yn ein *Rhagolwg Economaidd a chyllidol (EFO)*.
- 1.2 Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Sefydlodd hyn fecanwaith ar gyfer addasu'r cyllid grant bloc y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU i adlewyrchu datganolï pwerau trethu.¹ Sefydlodd y fframwaith cyllidol hefyd ofyniad am ragolygon annibynnol. Dewisodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio rhagolygon yr OBR i fodloni'r gofyniad hwn.²
- 1.3 Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan Femorandwm Cydddealltwriaeth, Cylch Gorchwyl, a Fframwaith Ariannol. Yn ail hanner 2020, fe wnaethom adolygu'r trefniadau hyn ar y cyd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw wersi a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf o ragfynegi.³ O dan y trefniadau hyn rydym yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ragfynegi'r trethi datganoledig o ystyried eu rôl yn fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae meysydd sydd y tu hwnt i gwmpas ein rôl yn cynnwys: cynhyrchu rhagolwg macro-economaidd llawn ar gyfer Cymru; llunio rhagolwg ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru; ac asesu effeithiau penderfyniadau polisi arfaethedig, yn hytrach na rhai a gadarnhawyd.
- 1.4 Mae ein rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru yn cael eu cyflwyno yn y *Rhagolwg Trethi Cymreig (WTO)* a gyhoeddir ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru bob blwyddyn, ac rydym yn cyhoeddi diweddariad ar gyfer Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru. Yn y *WTO* hwn, a gyhoeddir ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, rydym yn disgrifio ein rhagolygon diweddaraf ar gyfer tair ffynhonnell refeniw:
- cyfraddau treth incwm Cymru;
 - treth trafodiadau tir (LTT); a

¹ Mae gwybodaeth fanylach am y ddeddfwriaeth a llywodraethu perthnasol ar gael ar ein gwefan.

²Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, *Darpariaeth o ragolygon treth Cymru gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*.

³Mae'r cydadolygiad ar gael ar ein gwefan ochr yn ochr â *WTO Rhagfyr 2020*.

- **treth gwarediadau tirlenwi (LDT).**

1.5 Mae'r rhagolygon hyn yn gyson â'r rhagolwg canolog ar gyfer economi'r DU a chyllid cyhoeddus a gyflwynwyd yn ein EFO ym mis Hydref 2024. Nodweddion allweddol y rhagolwg hwn yw:

- Yn erbyn cefndir economaidd a chyllidol sydd heb newid fwy neu lai ers mis Mawrth, **sicrhaodd Cyllideb yr Hydref gynnydd mawr, parhaus mewn gwariant, trethiant a benthyca.** Effaith net polisiau'r Gyllideb yw cynyddu benthyca o £19.6 biliwn yn 2024-25 a £32.3 biliwn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf.
- Mae penderfyniadau polisi yn cynyddu **gwariant cyhoeddus** o bron i £70 biliwn y flwyddyn ar gyfartaledd o 2025-26, gyda dwy ran o dair ohono yn mynd ar wariant cyfredol ac un rhan o dair ar wariant cyfalaf. O ganlyniad, rhagwelir bydd maint y wladwriaeth yn setlo ar 44 y cant o GDP erbyn diwedd y degawd, bron i 5 pwynt canran yn uwch na chyn y pandemig.
- Mae hanner y cynnydd mewn gwariant yn cael ei ariannu drwy gynnydd mewn **trethi**, yn bennaf ar gyflogresi cyflogwyr, ar asedau, a thrwy fwy o gydymffurfiaeth treth. Mae'r rhain yn codi £36 biliwn y flwyddyn mewn refeniw ychwanegol a rhagwelir y byddant yn gwthio'r cymeriant treth i 38 y cant o GDP erbyn 2029-30.
- Wedi diffyg twf y llynedd, disgwylir i'r **economi** dyfu ychydig dros 1 y cant eleni, gan godi i 2 y cant yn 2025, cyn disgyn i tua 1½ y cant dros weddill y rhagolwg. Mae polisiau cyllidebol yn rhoi hwb dros dro i allbwn yn y tymor agos, ond yn gadael GDP yn ddigyfnewid i raddau helaeth mewn pum mlynedd.
- Mae'r Gyllideb yn gosod dwy **reol gyllidol newydd**: i sicrhau balans cyfredol ac i rwymedigaethau ariannol net ostwng, y ddwy ymhen pum mlynedd i ddechrau. Yn ôl y rhagolwg canolog, mae'r ddwy reol ar y trywydd iawn i'w bodloni, o £9.9 biliwn a £15.7 biliwn yn y drefn honno, sy'n ffraciwn bach o'r risgiau sy'n ymwneud â'n rhagolwg canolog.
- Rydym yn cynhyrchu rhagolwg canolog lle rydym yn barnu bod y **risgiau** hyn yn gyfartal gytbwys, ond rydym yn pwysleisio'r ansicrwydd sylweddol sy'n gynhenid ym mhob agwedd o'r rhagolwg. Yn ein EFO rydym yn arddangos y risgiau hyn gan ddefnyddio siartiau ffan, dadansoddiad sensitifrwydd a senarios amgen. Yn EFO Hydref 2024, fe wnaethom gyflwyno senarios amgen ar gyfer cyfraddau llog ac effaith buddsoddi cyhoeddus uwch ar allbwn posibl.

1.6 Mae'r rhagolygon yn y WTO hwn hefyd yn ymgorffori effeithiau polisiau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, yr ydym wedi craffu arnynt a'u hardystio gan ddefnyddio'r un dull ag yr ydym yn ei gymhwyso i bolisiau Llywodraeth y DU mewn EFO. Mae polisiau Llywodraeth Cymru yr ydym wedi'u hymgorffori fel a ganlyn:

- **Cyfraddau uwch preswyl treth trafodiadau tir yn cynyddu.** O 11 Rhagfyr 2024, bydd cyfraddau uwch preswyl LTT yn cynyddu 1 pwynt canran ar draws pob band. Dyma'r cyfraddau sy'n berthnasol i eiddo ychwanegol megis ail gartrefi, eiddo pontio a phryniannau prynu-i-osod. Amcangyfrifir y bydd y polisi yn cynyddu LTT £8.1 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd o 2025-26 i 2029-30. Mae'r ansicrwydd allweddol ynghylch y costiad hwn yn ymwneud â'r rhagdybiaethau ymddygiadol ynghylch i ba raddau y bydd trafodiadau a phrisiau'n gostwng o ganlyniad i'r cyfraddau uwch, ac unrhyw gyfnewidiadau tuag at brynu prif breswylfeydd.
- **Addasiad rhyddhad anheddau lluosog (MDR).** O 7 Chwefror 2025, ni fydd trethdalwyr bellach yn gallu hawlio MDR ac eithriad anheddau atodol yn yr un trafodiad. Mae MDR yn lleihau'r dreth trafodiadau tir a delir wrth brynu eiddo sy'n cynnwys mwy nag un annedd, felly bydd cyfyngu ar gymhwysedd ar gyfer y rhyddhad yn cynyddu derbyniadau LTT gan amcangyfrif o £1.3 miliwn y flwyddyn dros y rhagolwg o 2025-26. Mae hawliadau MDR yn gyfnewidiol iawn o flwyddyn i flwyddyn, felly mae'r amcangyfrif hwn yn ansicr iawn.
- **Cyfraddau treth gwarediadau tirlenwi.** Mae'r polisi hwn yn cynyddu cyfradd safonol LDT o £103.70 i £126.15 y dunnell (cynnydd o 22 y cant), a'r gyfradd is o £[3.30] i £6.30 y dunnell (cynnydd o 91 y cant). Bydd yn dod i rym o Ebrill 2025 a bydd yn cynhyrchu £2.9 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r ansicrwydd allweddol yn y costiad hwn yn ymwneud â pha warediadau tirlenwi sy'n lleihau mewn ymateb i'r newidiadau mewn cyfraddau.
- **Cydymffurfiaid ychwanegol treth trafodiadau tir.** Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn cynyddu adnoddau i staff ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio ar LTT, yr amcangyfrifir y bydd yn cynyddu derbyniadau LTT o £2.6 miliwn yn 2025-26. Mae'r data sydd ar gael ar weithgarwch cydymffurfio gan ACC yn fwy cyfyngedig na'r data ar gyfer CThEF felly mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y cynnyrch cydymffurfio sydd ar gael.

1.7 Mae'r fethodoleg a'r rhagolygon yn y WTO hwn yn cynrychioli barn gyfunol y tri aelod annibynnol o Bwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol yr OBR (BRC). Rydym yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y barnau sy'n sail iddynt.

Amserlen y rhagolygon

1.8 Er mwyn cynhyrchu'r rhagolygon a gyflwynir yn y ddogfen hon:

- Fe wnaeth dadansoddwyr o Lywodraeth Cymru a CThEM gynhyrchu rhagolygon treth Cymru drafft, gan ddefnyddio penderfyniadau a gyhoeddwyd yn ein EFO ym mis Hydref 2024.
- Craffwyd ar y rhain gan y BRC mewn dau gyfarfod ar 19 a 23 Medi.

Cyflwyniad

- Yna paratowyd rhagolygon LTT a LDT wedi'u diweddarau gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r data derbyniadau a phrisiau tai diweddaraf, ar 22 Tachwedd. Craffwyd ar y rhain gan y BRC ar 22 Tachwedd.
- Ar 27 Tachwedd, fe wnaethom gwblhau ein rhagolwg trethi Cymreig yn derfynol, gan ymgorffori effeithiau cyhoeddiadau polisi Llywodraeth y DU yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref, yn ogystal â cyhoeddiadau polisi dilynol yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a'r data alldro derbyniadau diweddaraf a gyhoeddwyd ers 30 Hydref.

Strwythur y ddogfen

1.9 Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 2:** treth incwm ar incwm nad yw'n gynilion, incwm di-ddifidend o gyfraddau Cymru.
- **Pennod 3:** treth trafodiadau tir.
- **Pennod 4:** treth gwarediadau tirlenwi.
- **Atodiad A:** crynodeb o'r rhagolygon sydd eu hangen ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc.

1.10 Mae'r holl siartiau a thablau a gyflwynir yn y ddogfen hon, ynghyd â deunydd rhagolygon atodol, ar gael ar ffurf taenlen ar ein gwefan.

2 Cyfraddau treth incwm Cymru

Cyflwyniad

2.1 Mae'r bennod hon:

- yn disgrifio **cyfraddau treth incwm Cymru** a sut y'u codir ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend fesul band treth;
- yn nodi ein **methodoleg** ar gyfer rhagweld rhwymedigaethau treth incwm y DU a chyfran Cymru o'r cyfanswm hwn, cyn rhannu'r gyfran hon fesul band treth;
- yn cyflwyno ein **rhagolygon diweddaraf** ar gyfer cyfraddau Cymru ac ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm y DU; ac
- yn amlinellu rhai o'r **risgiau a'r ansicrwydd** ynghylch ein rhagolwg cyfraddau Cymreig.

Cyfraddau treth incwm Cymru

2.2 Daeth cyfraddau treth incwm Cymru i rym ym mis Ebrill 2019. Cânt eu gweinyddu a'u casglu gan CThEF. Mae pedair agwedd bwysig ar gynllun a gweithrediad y cyfraddau hyn yng Nghymru sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth ein rhagolygon treth incwm ar gyfer y DU gyfan:

- Yn gyntaf, maent yn berthnasol i drethdalwyr Cymreig yn unig, a ddiffinnir fel **unigolion y mae eu prif breswylfa yng Nghymru** am y rhan fwyaf o'r flwyddyn dreth. Rhoddir baner 'C' ar eu dynodwr treth CThEF i unigolion sy'n cael eu dosbarthu fel preswlydd Cymreig.
- Yn ail, nid yw cyfraddau Cymru ond yn cynrychioli'r **10c cyntaf yn y bunt ar gyfer pob band treth**. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru osod y cyfraddau treth ar gyfer pob un o'r cyfraddau treth sylfaenol, uwch ac ychwanegol, sy'n disodli gostyngiad o 10c yn elfen neilltuedig Llywodraeth y DU o bob band treth. Ers i gyfraddau treth incwm Cymru gael eu datganoli, mae'r cyfraddau hyn i gyd wedi'u gosod ar 10c, fel bod cyfraddau treth incwm cyffredinol a delir gan drethdalwyr Cymru yn parhau'n gyson â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gweddill y dreth incwm a godir gan drethdalwyr Cymru – h.y. 10c yn y bunt gan dalwyr y gyfradd sylfaenol, 30c gan dalwyr cyfradd uwch a 35c gan dalwyr cyfradd ychwanegol – wedi'i chadw i Lywodraeth y DU.

Cyfraddau treth incwm Cymru

- Yn drydydd, mae cyfraddau Cymru yn cael eu codi ar **incwm nad yw'n dod o gynilion, nad yw'n dod o ddifidend (NSND)**. Mae incwm NSND yn cyfrif am ychydig dros 90 y cant o rwymedigaethau treth incwm y DU gyfan, a thua 95 y cant o rwymedigaethau yng Nghymru.
- Yn olaf, asesir cyfraddau Cymru ar sail rhwymedigaethau yn hytrach nag ar sail Cyfrifon Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y bydd ein rhagolwg o dreth incwm hunanasesu (SA) a ddefnyddir ar gyfer cyfraddau Cymru yn wahanol i'r sail arian parod a ddefnyddir yn y Cyfrifon Cenedlaethol a'n rhagolwg treth incwm ar gyfer y DU gyfan, oherwydd yr oedi rhwng rhwymedigaethau'n cael eu tynnu a'r treth gysylltiedig yn cael ei thalu.

2.3 Mae Siart 2.1 yn dangos sut y byddai rhwymedigaeth treth incwm 2025-26 tri thredhdalwyr Cymreig damcaniaethol yn cael ei rhannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:¹

- **Ar gyfer trethdalwr cyfradd sylfaenol sy'n ennill £30,000** o un ffynhonnell incwm cyflogaeth, byddai ei rwymedigaeth o £3,486 yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y ddwy weinyddiaeth. Y gyfradd treth incwm effeithiol a delir gan yr unigolyn hwn yw 11.6 y cant (yn is na'r gyfradd sylfaenol o 20 y cant diolch i'r lwfans personol di-dreth o £12,570).
- **Ar gyfer trethdalwr cyfradd uwch sy'n ennill £60,000**, gyda £55,000 yn dod o gyflogaeth a £5,000 o ddifidendau o gyfranddaliadau cwmni, byddai 39 y cant o'i rwymedigaeth o £10,951 yn ymwneud â chyfraddau Cymru a 61 y cant gael ei neilltuo i Lywodraeth y DU, gan gynnwys yr holl £1,519 sy'n ddyledus ar eu hincwm difidend. Y gyfradd treth incwm effeithiol yw 18.3 y cant.²
- **Byddai gan drethdalwyr cyfradd ychwanegol sy'n ennill £250,000**, gyda £200,000 o incwm cyflogaeth a £50,000 mewn difidendau gyfanswm rhwymedigaeth treth o £95,681. O hyn, dim ond 21 y cant a fyddai'n ymwneud â chyfraddau Cymru, tra byddai 79 y cant yn mynd i Lywodraeth y DU. Ar y lefel incwm hon ni fyddai trethdalwr yn derbyn unrhyw lwfans personol. Mae'r gyfran uwch ar gyfer Llywodraeth y DU yn adlewyrchu dau ffactor: yn gyntaf, byddai'r holl enillion dros £37,700 yn cael eu trethu ar y cyfraddau uwch neu ychwanegol lle mae cyfran Llywodraeth y DU yn llawer mwy; ac yn ail, mae gan y trethdalwr rwymedigaeth o £19,478 o'i incwm difidend, a chaiff y cyfan ohono ei gadw gan Lywodraeth y DU. Y gyfradd treth incwm effeithiol yw 38.3 y cant.


Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos pwysigrwydd cymharol enillwyr uwch ar gyfer derbyniadau treth, ond hefyd bod hyn yn llawer llai gwir ar gyfer cyfraddau Cymru. Mae'r

¹ Yn ogystal â'r paramedrau treth incwm a adroddir yn Nhabl 2.3, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r tapr lwfans personol sy'n tynnu £1 o lwfans personol yn ôl am bob £2 o enillion dros £100,000; y lwfans difidend o £500 yn 2025-26; a chyfraddau treth ar enillion difidend o 8.75 y cant ar gyfer trethdalwyr cyfradd sylfaenol, 33.75 y cant ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch a 39.35 y cant ar gyfer trethdalwyr cyfradd ychwanegol. Mae'r enghreifftiau hyn yn enghreifftiol ac nid ydynt yn cynnwys pob agwedd ar y drefn treth incwm, er enghraifft unrhyw ddefnydd o ryddhad i ostwng rhwymedigaeth treth unigolyn. Yn yr un modd, nid yw'r symiau hyn yn cynnwys agweddau eraill ar y drefn dreth bersonol, yn bennaf Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG, a gedwir i Lywodraeth y DU), felly nid ydynt yn cynrychioli atebolrwydd treth cyffredinol ar incwm.)

² Bydd unrhyw newidiadau i'r lwfans difidend, a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, yn fodd i newid cyfran Cymru. Er enghraifft, gostyngwyd y lwfans difidend yn mis Ebrill 2024, a gynyddodd swm yr incwm difidend a drethwyd gan Lywodraeth y DU, ac felly arweiniodd at gyfran Gymreig is.

trethdalwr cyfradd uwch yn ennill dwywaith cymaint â'r trethdalwr cyfradd sylfaenol ac mae ganddo rwymedigaeth treth gyffredinol sydd dair gwaith yn fwy, ond mae ei rwymedigaeth cyfraddau Cymru tua $2\frac{1}{2}$ gwaith yn fwy. Mae'r trethdalwr cyfradd ychwanegol yn ennill pedair gwaith cymaint â'r trethdalwr cyfradd uwch ac mae ganddo rwymedigaeth treth sydd tua $8\frac{1}{2}$ gwaith yn fwy, ond mae ei rwymedigaeth cyfraddau Cymru ychydig yn llai na phum gwaith yn fwy. Felly, mae refeniw treth Llywodraeth y DU yn fwy sensitif i newidiadau yn incymau enillwyr uchel nag y mae refeniw Llywodraeth Cymru.

Siart 2.1: Rhaniadau enghreifftiol rhwng rhwymedigaethau treth incwm Llywodraeth Cymru a'r DU



Ffynhonnell: OBR

Methodoleg

2.4 Mae ein rhagolygon treth incwm Cymreig yn cael eu cynhyrchu ar sail 'o'r brig i lawr'.³ Y prif gamau yw:

- Yn gyntaf, rydym yn **sefydlu rhagolwg cyfan o rwymedigaethau treth incwm NSND y DU**.
- Nesaf, rydym yn **cyfrifo'r gyfran orwymedigaethau treth incwm NSND sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru**, gan ystyried y sylfaen drethi berthnasol yng Nghymru a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r gyfundrefn dreth a gyhoeddwyd. Mae llawer o'n dadansoddiad yn edrych yn gyntaf ar gyfanswm cyfran treth incwm o Gymru – gan gynnwys symiau a dalwyd gan drethdalwyr Cymru ond a neilltuwyd i Lywodraeth y DU – cyn amcangyfrif y gyfran sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru.⁴

³ I gael rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gyfer rhagolygon gweler Pennod 2 o'n *Rhagolwg Trethi Cymru* Rhagfyr 2019 a'r dudalen 'Rhagolygon treth Cymru' ar ein gwefan

⁴ I weld ddadansoddiad manwl o gyfansoddiad y cyfrannau hyn, a'u hesblygiad dros amser, gweler Murphy Corkhill, J., M. Hanson, ac S. Johal, *Papur Gwaith Rhif 21 OBR: Datblygiadau mewn treth incwm datganoledig*, Hydref 2023.

Cyfraddau treth incwm Cymru

- Yna rydym yn **graddnodi'r gyfran alldro ar gyfer cyfraddau Cymru yn 2022-23 i ddata alldro** ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm Cymru, a gyhoeddwyd gan CThEF ym mis Gorffennaf. Ym Mluch 2.1 rydym yn gwerthuso ein rhagolygon ar gyfer y flwyddyn honno.
- Yn olaf, rydym yn **ychwanegu ein hamcangyfrifon o effaith polisïau newydd** a gyhoeddwyd ers ein rhagolwg blaenorol ar rwymedigaethau cyfraddau Cymru.

2.5 Roedd cytundeb fframwaith cyllidol Rhagfyr 2016 rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn manylu ar sut y byddai cyfraddau Cymru yn gweithredu. Wrth wneud hynny gosododd ofyniad arnom i ragweld rhwymedigaethau treth incwm yng Nghymru, ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd, wedi'u rhannu yn ôl band treth.⁵

Rhag-fesurau Rhagolwg DU gyfan o dreth incwm NSND

- 2.6** Rydym yn defnyddio alldro rhwymedigaethau treth incwm NSND diweddaraf CThEF a gyhoeddwyd ar gyfer y DU gyfan ar gyfer y flwyddyn dreth ddiweddaraf (2022-23 ar hyn o bryd) fel man cychwyn ar gyfer ein rhagolwg rhag-fesurau. Er mwyn rhagamcanu rhwymedigaethau rhwng y flwyddyn alldro honno a'r flwyddyn gyfredol, rydym yn cynhyrchu amcangyfrif o fewn y flwyddyn yn seiliedig ar ddata derbyniadau treth misol diweddaraf CThEF ar adeg ein rhagolwg diweddaraf – sy'n cwmpasu pob un o 2023-24 a'r pedwar mis cyntaf o 2024-25.
- 2.7** O'r sylfaen hon rydym wedyn yn rhagweld twf yn sylfaen treth incwm y DU yn unol â'n rhagolwg economi ehangach. Y penderfynyddion allweddol yw cyflogaeth a thwf enillion enwol cyfartalog, sy'n pennu faint o incwm llafur y gellir ei drethu. Yn ein rhagolwg presennol, mae twf enillion enwol cryf ynghyd â throthwyon treth personol sy'n cael eu rhewi mewn termau arian parod tan 2027-28 yn cynhyrchu 'llusgiad cyllidol' cryf.⁶ Dyma'r prif ysgogwr ar gyfer twf cymharol gryf a ragwelir mewn derbyniadau treth incwm yn y blynyddoedd hyd at 2027-28.
- 2.8** Rydym yn rhagweld treth incwm ar lefel y DU yn unol â'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan CThEF i gasglu'r dreth. Mae treth incwm TWE yn cyfrif am dros 80 y cant o'r refeniw, gyda bron y cyfan o'r gweddill yn cael ei gasglu drwy'r system SA. Mae incwm TWE yn cynrychioli enillion cyflogeion yn bennaf ynghyd â rhywfaint o incwm pensiynau, tra bod incwm SA yn cynnwys elw o hunangyflogaeth ac incwm o ddifidendau, tir ac eiddo, a chynilion.

⁵ I gael rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd, gweler Mathews, P., *Papur gwaith Rhif 14OBR: Treth incwm ddatganoledig: rhagweld fesul bandiau treth*, Medi 2018.

⁶ Llusgiad cyllidol yw lle mae derbyniadau treth yn cynyddu wrth i enillion cynyddol wthio mwy o weithwyr i mewn i'r system dreth neu i fandiau treth uwch.


Y gyfran o rwymedigaethau treth incwm y DU gyfan sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

- 2.9 Yn yr is-adran hon rydym yn esbonio sut rydym yn cyfrifo'r gyfran o rwymedigaethau NSND sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru. Rhennir ein hymagwedd i'r camau canlynol:
- rydym yn dechrau drwy ddefnyddio Arolwg CThEF o Incwm Personol (SPI) i sefydlu cyfran gyffredinol Cymru o rwymedigaethau treth incwm y DU gyfan
 - yna rydym yn **esbonio'rgwahaniaethau mewn treth incwm fesul person yng Nghymru o gymharu â'r DU**, gan edrych ar draws ffrydiau incwm, nifer y trethdalwyr a'r gyfradd dreth effeithiol;
 - y cam nesaf yw **asesu cyfran y boblogaeth sy'n talu treth incwm** drwy edrych ar gyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a'r DU; a'r
 - tri cham olaf yw **pennu'r incwm cyfartalog fesul trethdalwr**, cyfrifo **symiau cyfartalog y dreth a dalwyd ar yr incwm hwnnw** cyn **amcangyfrif yn derfynol y gyfran o rwymedigaethau'r DU a fydd yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru**.

Cyfran gyffredinol Cymru o rwymedigaethau treth incwm y DU gyfan

- 2.10 Er mwyn cyfrifo'r gyfran o'n rhagolwg ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm NSND y DU a fydd yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru, rydym yn dechrau gyda chyfran gyffredinol Cymru o dreth incwm fel y'i cynhwysir gan yr SPI. Mae'r SPI yn arolwg blynyddol sy'n seiliedig ar sampl o tua 880,000 o unigolion sydd mewn cysylltiad â CThEF yn ystod y flwyddyn. Fe'i cyhoeddir ag oedi hir – SPI 2021-22 yw'r flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd.
- 2.11 Mae Siart 2.2 yn cymharu cyfran Cymru o rwymedigaethau treth incwm y DU â chyfran Cymru o boblogaeth y DU. Mae cyfran Cymru o dreth incwm yn is na chyfran poblogaeth Cymru (2.6 yn erbyn 4.6 y cant yn 2021-22). Ond mae cyfran Cymru o dreth incwm hefyd wedi bod yn tueddu i ostwng yn gyflymach na chyfran poblogaeth Cymru ers 2000-01 (cwymp 13.7 y cant o'i gymharu â gostyngiad 6.1 y cant yng nghyfran y boblogaeth). Mae bron y cyfan o'r gostyngiad hwn wedi digwydd dros y degawd diwethaf (gostyngiad o 12 y cant ers 2011-12, o'i gymharu â gostyngiad o 4.2 y cant yng nghyfran y boblogaeth). Cynyddodd cyfran Cymru o dreth incwm yn y flwyddyn a gafodd ei tharo gan bandemig 2020-21 (o 2.64 y cant i 2.74 y cant), ond ers hynny mae wedi parhau â'i duedd ar i lawr yn y flwyddyn ddiwethaf.

Siart 2.2: Cyfran Cymru o rhwymedigaethau treth incwm a phoblogaeth y DU



Noder: Data treth ddim ar gael ar gyfer 2008-09 felly'r gyfran gyfrannol wedi'i seilio ar ryngosod o'r blynyddoedd cyfagos.
Ffynhonnell: CThEF, OBR


Y gwahaniaethau mewn treth incwm fesul person yng Nghymru o gymharu â'r DU

- 2.12** Gallwn ni'n rhwydd ymgorffori gwahaniaethau yn y twf disgwylidig yn y boblogaeth yn ein rhagolygon gan ddefnyddio rhagamcanion cyhoeddedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ond mae deall pam mae treth y pen yng Nghymru yn is nag yn y DU, ac wedi bod yn gostwng mewn termau cymharol, yn fwy cymhleth.
- 2.13** Mae Siart 2.3 yn cyflwyno'r gwahaniaeth mewn rhwymedigaethau treth incwm fesul person rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol. Mae'n dangos dwy ffordd wahanol o ddadelfennu'r gwahaniaethau hyn, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data SPI. Mae'r ddau banel yn dangos bod rhwymedigaethau fesul person yng Nghymru yn 2021-22 yn £1,450 (43 y cant) yn is nag yn y DU gyfan (£3,371 yn erbyn £1,921). Mae'r ddau gyflwyniad yn strwythurau methodolegol sy'n ddefnyddiol i'n helpu i ddeall y gwahaniaethau mewn rhwymedigaethau fesul person ac yn helpu i hwyluso unrhyw ragolygon y gallem ddymuno eu gwneud ynghylch sut y bydd cyfran Cymru o dreth incwm yn esblygu. Yn benodol:
- Mae'r panel chwith yn dadgyfuno'r gwahaniaeth yn dri ffactor sylfaenol: cyfran y boblogaeth sy'n drethdalwyr; incwm cyfartalog y trethdalwyr hynny (wedi'i rannu'n dair ffynhonnell wahanol); a swm y dreth a dalwyd fesul punt o incwm h.y. y gyfradd dreth effeithiol, neu ETR. Mae'n dangos mai'r prif ffactorau yw incymau cyfartalog is fesul trethdalwr (sy'n cyfrif am £767 o'r gwahaniaeth cyffredinol o £1,450 (53 y cant), er bod incymau pensiwn cyfartalog fesul trethdalwr ychydig yn uwch) ac ETR is (£616, 42 y cant o'r gwahaniaeth), ag effaith ymylol yn unig gan lai o drethdalwyr.
 - Yn lle hynny, mae'r panel de yn dadelfennu i'r pedair ffordd incwm yn y data SPI: incwm cyflogaeth, incwm hunangyflogaeth, incwm pensiwn ac incwm 'arall' (eiddo a

difidendau yn bennaf).⁷ Mae'r dull hwn yn cynnwys nifer y trethdalwyr a'r ETR yn ymhlwg yn y gwahanol ffrydiau incwm. Mae'n dangos bod treth is o incwm cyflogaeth yn cyfrif am 72 y cant o'r gwahaniaeth cyffredinol, gyda chyfraniadau is o bob un o'r tair ffrwd incwm arall (mae effaith incwm pensiwn yn cael ei gwrthdroi).

- 2.14** Cyhoeddwyd papur gwaith gennym yn 2023 a ddefnyddiodd y mathau hyn o ddadansoddiadau i archwilio'r ffactorau y tu ôl i'r gostyngiad yng nghyfran Cymru ers 2007-08 a'i oblygiadau i'n rhagolwg.⁸ Dangosodd y papur, sy'n cefnogi ein methodoleg bresennol ar y cyfan, fod y bwlch cynyddol yn cael ei esbonio i raddau helaeth gan y gwahaniaeth mewn incwm cyflogaeth, sef y ffynhonnell fwyaf o dreth incwm, sy'n sbardun mawr i'r gwahaniaeth yn y ddwy fethodoleg, a hefyd yn un sydd â'r ffynhonnell gyfoethocaf o ddata sydd ar gael, y gallwn ni ei defnyddio i fireinio ein methodoleg rhagweld.⁹

Siart 2.3: Rhwymedigaethau treth incwm Cymru a'r DU fesul person yn 2021-22



Ffynhonnell: CThEF, cyfrifiadau OBR

Y gyfran o'r boblogaeth sy'n talu treth incwm

- 2.15** Mae'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn talu treth incwm yn is yng Nghymru nag ydyw yn y DU gyfan. Yn ôl SPI 2021-22, talodd 47.6 y cant o boblogaeth Cymru dreth incwm, o'i gymharu â 49.3 y cant o boblogaeth y DU (fel y dangosir ym mhanel chwith Siart 2.3 uchod, dim ond cyfraniad bach y mae hyn yn ei wneud (4.6 y cant) at y gwahaniaeth cyffredinol mewn rhwymedigaethau treth incwm fesul person rhwng Cymru a'r DU).
- 2.16** Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu yw bod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn is nag ydyw yn y DU gyfan. Mae Siart 2.4 yn defnyddio dwy ffynhonnell ddata wahanol i ddangos bod y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru wedi bod yn gyson is na'r gyfradd yn y DU yn y

⁷ Nid oeddem yn gallu cael gwared ar elfennau cynilion a difidendau 'incwm arall' ond nid yw hyn yn effeithio'n sylweddol ar ein dadansoddiad.


⁸ Murphy Corkhill, J., M. Hanson, ac S. Johal, *Papur Gwaith Rhif 21 OBR: Datblygiadau mewn treth incwm datganoledig*, Hydref 2023. Byddwn ni'n defnyddio canfyddiadau'r papur i fireinio ein rhagolwg ymhellach ac ymchwilio'n llawnach i rai meysydd, megis incwm cyflogaeth, o ystyried y rôl anghymesur y mae'n ei chwarae wrth gynhyrchu a chynnal bylchau mewn treth incwm fesul person.

⁹ Er enghraifft, rydym yn defnyddio gwybodaeth TWE amser real (RTI) yn ystod y flwyddyn ar enillion cyflogaeth i bontio'r bwlch o'r cyfrannau cychwynnol ar sail SPI o'r flwyddyn alldro ddiweddaraf i ddechrau'r cyfnod rhagweld. Mae hyn yn ein galluogi i ddal yn rhannol rai o'r dnameg diweddar a welwyd mewn enillion.

blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cael ei ysgogi gan y gyfradd anweithgarwch economaidd sy'n sylweddol uwch yng Nghymru na'r DU gyfan, tra bod y cyfraddau diweithdra wedi dilyn ei gilydd yn fras. Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu (LFS), mae'r gyfradd cyflogaeth gyfartalog yng Nghymru ers 1992 wedi bod 4.1 pwynt canran yn is nag yn y DU gyfan, ac roedd 2.7 pwynt canran yn is yn 2021-22. Mae'r LFS hefyd yn dangos bod y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru tua dwywaith mor gyfnewidiol ag yn y DU gyfan, yn debygol oherwydd maint sampl llai yn LFS Cymru na'r DU yn gyffredinol.

- 2.17** Mae cyfraddau ymateb LFS wedi bod yn gostwng ers y pandemig, ac mae'r SYG yn cynghori bod yn ofalus wrth ddehongli data LFS wrth iddi barhau i wella'r amcangyfrifon (mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys ailbwysoli rhannol pellach – ar ben yr hyn a roddwyd ar waith ym mis Chwefror eleni – erbyn diwedd 2024, a ddilynnir gan ailbwysoli llawnach a'r newid i'r LFS wedi'i Drawsnewid yn ddiweddarach). Gan ddefnyddio mesur mwy cyfun yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), mae'r patrwm cyffredinol yn debyg (er yn llai cyfnewidiol), gyda chyfraddau cyflogaeth Cymru ar gyfartaledd 3.8 pwynt canran yn is na'r DU ers 2004 a 3.2 pwynt canran yn is yn 2021-22.
- 2.18** O'i gymharu â'r flwyddyn cyn-bandemig 2019-20, mae'r APS yn dangos bod y gyfradd cyflogaeth wedi disgyn 0.4 pwynt canran yng Nghymru erbyn 2021-22, ychydig yn is na'r gostyngiad 0.9 pwynt canran yn y DU gyfan (er bod cyfradd cyflogaeth Cymru wedi parhau i ostwng drwodd i 2023-24, tra bod y gyfradd cyflogaeth yn y DU gyfan wedi adlamu). Roedd y gostyngiadau yng nghyfraddau Cymru a'r DU yn weddol debyg yn nata RTI CThEF. Er y bu adlam yn 2021-22, mae'r cyfraddau cyflogaeth yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Esbonnir y patrwm hwn yn rhannol gan y cynnydd ôl-bandemig mewn anweithgarwch. Cododd y gyfradd anweithgarwch yng Nghymru 0.4 pwynt canran rhwng 2019-20 a 2021-22, o gymharu â 0.9 pwynt canran yn y DU gyfan, er bod y data diweddaraf yn dangos bod y bwlch yn ehangu ar gyfer Cymru ond yn culhau ar gyfer y DU gyfan. Byddwn ni'n parhau i fonitro datblygiadau mewn cyfraddau anweithgarwch, gan fod y rhain yn cynrychioli risg i'n hamcangyfrif o gyfran Cymru.

Siart 2.4: Cyfradd cyflogaeth ar gyfer y DU a Chymru




Ffynhonnell: SYG

2.19 Mae'n bosibl bod codiadau olynol yn y lwfans personol di-dreth, o £6,475 yn 2010-11 i £12,500 yn 2019-20, wedi tynnu mwy o drigolion Cymru allan o dalu treth incwm, oherwydd gwahaniaethau yn y dosbarthiad enillion rhwng Cymru a'r DU gyfan. Ond mae newidiadau i'r PA ers hynny wedi bod yn fwy cymedrol, gan ei fod yn cael ei rewi mewn termau arian parod yn 2020-21 ac wedi cynyddu 0.6 y cant yn unig (i £12,570) yn 2021-22. Mae Siart 2.5 yn cyflwyno'r newid cymharol yn nifer y trethdalwyr ym mhob band treth rhwng 2010-11 a 2021-22, gyda gostyngiad cymesurol uwch yng Nghymru mewn trethdalwyr cyfradd sylfaenol fel canran o'r holl drethdalwyr na'r DU yn gyffredinol (15.4 y cant yn erbyn 14.1 y cant), a chynnydd cymesurol lai mewn trethdalwyr cyfradd uwch a chyfradd ychwanegol. Ond wrth wraidd y tueddiadau cyffredinol hyn mae patrymau gwahanol mewn dau gyfnod amser penodol:

- Rhwng 2010-11 a 2019-20, gostyngodd nifer y trethdalwyr cyfradd sylfaenol lawer yn fwy sydyn yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol (bron 30 y cant yn fwy), gan arwain at ostyngiad 5.6 y cant mewn nifer cyffredinol y trethdalwyr, o gymharu â chynnydd 0.5 y cant yn y DU gyfan.
- Ond ers 2019-20, mae'r duedd hon wedi gwrthdroi, gyda nifer y trethdalwyr cyfradd sylfaenol wedi cynyddu yng Nghymru ers hynny (tra'n parhau i ostwng yn y DU gyfan). Mae hyn wedi arwain at nifer y trethdalwyr yng Nghymru bellach yn cynyddu ychydig o gymharu â 2010-11 (i fyny 2.4 y cant). Mae'n awgrymu y gallai parhau i rewi'r PA mewn termau arian parod yn ystod y blynyddoedd diwethaf effeithio'n anghymesur ar Gymru.

Siart 2.5: Newid yn y trethdalwyr fesul band treth rhwng 2010-11 a 2021-22



Ffynhonnell: CThEF, OBR

Incwm cyfartalog fesul trethdalwr

2.20 Y rheswm pwysicaf am y bwlch rhwng treth y DU a threth Cymru fesul person (fel y'i cofnodir yn yr SPI) yw bod gan drethdalwyr Cymru incwm cyfartalog is. Mae hyn yn esbonio 53 y cant o'r diffyg yn y dreth fesul person yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn 2021-22.

2.21 Mae Tabl 2.1 yn dangos gwahanol ffynonellau incwm ar gyfartaledd ar draws yr holl drethdalwyr incwm. Mae'n dangos:

- **Mae'r incwm cyfartalog a awgrymir gan yr SPI yng Nghymru yn is nag yn y DU gyfan**, o 20 y cant yn 2021-22. Mae incymau cyfartalog is cyflogaeth yn cyfrif am tua tri chwarter o'r diffyg cyffredinol o £7,791. Mae'r gwahaniaeth Cymru-DU yn arbennig o amlwg yn 'hunangyflogaeth ac incwm arall nad yw'n bensiwn' (sy'n cynnwys incwm o gynilion a difidendau, yn ogystal ag incwm eiddo), er bod hyn yn cyfrif am gyfran lai o'r gwahaniaeth cyffredinol mewn termau absoliwt.
- **Fe ddaw mwyafrif helaeth incwm trethdalwyr o swyddi cyflogaeth.** Mae hyn yn wir yng Nghymru a'r DU gyfan, sy'n esbonio pam mai hon yw'r ffynhonnell fwyaf o wahaniaeth mewn rhwymedigaethau treth fesul trethdalwr, gan gyfrif am tua tri chwarter o'r diffyg cyffredinol yng Nghymru o gymharu â'r DU yn gyffredinol (fel y dangosir yn y ddau banel yn Siart 2.3 uchod).
- **Mae'r incwm cyfartalog o bensiynau yn uwch yng Nghymru nag yn y DU gyfan** – o 11 y cant yn 2021-22. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru o oedran pensiwn (20.3 y cant yn 2022 yn erbyn 17.8 y cant yn y DU gyfan), ynghyd â bod gan Gymru gyfran gymharol uwch o weithwyr sector cyhoeddus, sy'n tueddu i fod ag incwm pensiwn cyfartalog uwch, na'r DU yn gyffredinol (22.1 y cant yn 2021-22 o'i gymharu â 17.6 y cant).

	DU	Cymru	Gwahaniaeth	
	£ y trethdalwr		£	Y cant
Inwm cyflogeion	27,833	22,011	-5,822	-21
Hunangyflogaeth ac incwm arall nad yw'n bensiwn	6,356	3,800	-2,556	-40
Incwm pensiwn	5,170	5,731	561	11
Cyfanswm incwm	39,327	31,536	-7,791	-20

Ffynhonnell: CThEF, SYG, OBR

- 2.22** Mae Tabl 2.2, sy'n canolbwyntio ar incwm cyflogeion yn unig, yn dangos bod y bwlch mawr hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn ffynonellau eraill o ddata incwm llafur sy'n canolbwyntio ar enillion cyflogeion. Mae cwmipas pob ffynhonnell yn amrywio felly nid oes modd eu cymharu'n llawn, sy'n esbonio pam fod lefel yr enillion cyfartalog a adroddir gan bob un yn wahanol. Ond er hynny, maent yn adrodd stori gyson o incymau cyfartalog cyflogeion yng Nghymru yn sylweddol is na'r rhai ar gyfer y DU yn gyffredinol (yn amrywio o wahaniaeth 19 y cant yn y SPI i wahaniaeth 11 y cant gan ddefnyddio'r LFS).¹⁰

	DU	Cymru	Gwahaniaeth	
	£ y cyflog		£	Y cant
Arolwg Cyllid a Thollau EF o incymau personol	36,799	29,764	-7,035	-19
Gwybodaeth amswer real Cyllid a Thollau EF	33,153	27,439	-5,714	-17
Arolwg blynyddol o oriau ac enillion SYG	31,449	27,256	-4,192	-13
Arolwg o'r gweithlu	33,228	29,459	-3,769	-11

Ffynhonnell: CThEF, SYG, OBR


Symiau cyfartalog y dreth a dalwyd fesul punt o incwm

- 2.23** Hyd yn oed ar ôl i ni roi cyfrif am wahaniaethau yn nifer y trethdalwyr fesul person ac incwm cyfartalog y trethdalwr, mae treth incwm y person yng Nghymru yn llai na'r un yn y DU oherwydd telir llai o dreth fesul punt o incwm. Mae'r gyfradd dreth effeithiol is hon yn esbonio dros 40 y cant o'r gwahaniaeth o £1,450 mewn treth incwm y person rhwng Cymru a'r DU yn 2021-22.
- 2.24** Mae Siart 2.6 yn dangos bod y gyfradd dreth incwm effeithiol yng Nghymru wedi bod yn sylweddol is nag yn y DU dros y ddau ddegawd diwethaf a bod y bwlch bron wedi dyblu yn y cyfnod hwnnw. Ers 2007-08, mae'r ETR wedi gostwng 3.0 pwynt canran yng Nghymru, o'i gymharu â gostyngiad 1.3 pwynt canran yn y DU gyfan. Er i'r ETR godi yng Nghymru a'r DU gyfan yn 2021-22, yn dilyn yr adlamiad cryf mewn derbyniadau yn dilyn 2020-21 a gafodd ei daro gan y pandemig, cododd yn fwy sydyn yn y DU (o 0.8 pwynt canran yn erbyn 0.3 pwynt canran yng Nghymru), gan arwain at ehangu'r gwahaniaeth ETR ymhellach.

¹⁰ Mae'r gwahaniaeth yn y cyfartaledd SPI rhwng Tablau 2.1 a 2.2 oherwydd mai dim ond ar gyfartaledd ar draws yr unigolion hynny ag incwm cyflogaeth y mae'r olaf, tra bod y cyntaf yn gwneud hynny ar draws yr holl unigolion. Mae hyn yn egluro pam fod y cyfartaledd yn is yn Nhabl 2.1, gan ei fod yn cynnwys rhai unigolion, er enghraifft pensiynwyr, heb unrhyw incwm cyflogaeth.

Cyfraddau treth incwm Cymru


Siart 2.6: Cyfraddau treth incwm effeithiol yng Nghymru a'r DU



Sylwer: Nid yw data ar gael ar gyfer 2008-09 felly mae'r cyfrannau cyfrannol yn seiliedig ar ryngosodiad o'r blynyddoedd cyfagos.
Ffynhonnell: CThEF, OBR

2.25 Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu'r strwythur treth incwm cynyddol sy'n rhyngweithio ag incymau cyfartalog is – er enghraifft, a phopeth arall yn gyfartal, bydd cyfran uwch o dreth yn cael ei thalu ar y gyfradd sylfaenol yng Nghymru nag a geir yn y DU gyfan. Ond mae hefyd yn adlewyrchu siâp y dosbarthiad incwm. Mae Siart 2.7 yn cymharu cyfanswm incwm trethdalwyr wedi'i grwpio yn ôl bandiau incwm rhwng Cymru a'r DU, fel y'i cofnodwyd yn SPI 2021-22. Mae'n dangos bod trethdalwyr a oedd yn ennill dros £50,000 yn cyfrif am 44 y cant o gyfanswm incwm trethdalwyr yn y DU, tua dwy ran o dair yn uwch na'r gyfran gyfatebol ar gyfer Cymru. Adlewyrchir hyn yn y gyfran o gyfanswm y dreth a dalwyd ym mhob band incwm, gyda 70 y cant o gyfanswm y dreth a dalwyd yn y DU yn dod oddi wrth y rhai sy'n ennill dros £50,000, o gymharu â 47 y cant yng Nghymru. Mae llusgiad cyllidol hefyd wedi cynyddu'r gyfran o incwm trethdalwyr o enillion dros £50,000, gyda'r gyfran yn cynyddu 3 pwynt canran yn 2021-22 yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol, gyda gostyngiad cyfatebol yn y gyfran wedi'i briodoli i enillion is.

Siart 2.7: Cyfran o gyfanswm incwm trethdalwyr yn y DU a Chymru fesul band incwm



Ffynhonnell: CThEF, OBR

Y gyfran o rwymedigaethau incwm Cymru sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

2.26 Mae'r cam olaf ar gyfer amcangyfrif y gyfran o rwymedigaethau treth incwm y DU a fydd yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru yn un mecanyddol. Rydym yn amcangyfrif y gyfran o incwm NSND Cymru a fydd yn cael ei drethu ym mhob band treth ac yna'n cyfrifo'r ffraciwn perthnasol ohono a fyddai'n cael ei gwmpasu gan y 10c cyntaf – h.y. 50 y cant ar gyfer incwm a drethwyd ar y gyfradd sylfaenol, ac yn y blaen. Mae Siart 2.8 yn dangos yr holl dreth incwm a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr Cymru fel cyfran o gyfanswm treth incwm y DU (2.6 y cant yn 2021-22) ac yn ei chymharu â'r swm a ddatganolir mewn gwirionedd – h.y. y gyfran a fyddai'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru (1.2 y cant yn 2021-22).¹¹


2.27 Fel y disgrifiwyd yn gynharach, rydym yn defnyddio ein rhagolygon macro-economaidd lefel y DU gyda dim ond ychydig o addasiadau i ragweld rhwymedigaethau treth incwm Cymru. Ein rhagdybiaeth ganolog yw bod y newidynnau sy'n pennu seiliau treth yng Nghymru a'r DU yn cyd-fynd yn fras, gyda'r risgiau tuag i lawr a'r risgiau tuag i fyny sy'n gysylltiedig â'r rhagdybiaeth hon yn gytbwys. Mae hyn yn golygu ein bod i bob pwrpas yn rhagdybio bod cyfran Cymru'r rhag-fesurau yn aros yr un fath dros y cyfnod a ragwelir, unwaith y rhoddir cyfrif am alldro RTI yn ystod y flwyddyn ac unrhyw ragamcanion poblogaeth. Dangosodd ein papur gwaith y llynedd fod y ffactorau sy'n arwain at wahaniaethau mewn rhwymedigaethau treth yn y DU a Chymru wedi tyfu'n gyson, os dim ond yn gymedrol, o 2007-08 tan 2015-16. Ond ers hynny, mae cyfran Cymru wedi aros yn weddol wastad, sy'n cefnogi ein dull o ragdybio bod y seiliau treth hyn yn symud gyda'i gilydd yn fras (ac felly nad yw cyfran Cymru wedi newid y tu hwnt i'r flwyddyn ragweledig gyfredol). Mae

¹¹ Ni ddatganolwyd cyfraddau tan 2019-20, felly cyflwynir blynyddoedd cyn hyn at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Cyfraddau treth incwm Cymru

dargyfeirio pellach (yn unol â'r duedd cyn 2015-16), neu gyfnod o gydgyfeirio, felly'n cynrychioli risgiau tuag i lawr a'r risgiau tuag i fyny i'n rhagolwg, yn y drefn honno. Mae ein hymagwedd bresennol, sy'n canolbwyntio ar incwm cyflogaeth, yn helpu i liniaru llawer o'r risg hon, gan ei fod yn ein galluogi i raddnodi (gan ddefnyddio data RTI amserol – gweler isod) y ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n sbarduno derbyniadau o gyfraddau Cymru a'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU.¹²

Siart 2.8: Cyfrannau Cymru o gyfanswm rhwymedigaethau treth incwm y DU: yr holl dreth gan drethdalwyr Cymru yn erbyn cyfraddau treth incwm Cymru



Ffynhonnell: CThEF

Rhagweld y gyfran o rwymedigaethau treth incwm sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

2.28 O'r manau cychwyn hyn, rydym yn addasu ein rhagolwg ar gyfer cyfran gyffredinol Cymru mewn tair ffordd:

- **Enillion RTI:** rydym yn allosod rhwng 2021-22 a 2024-25 gan ddefnyddio amcangyfrif CThEF o alldro rhwymedigaethau treth incwm Cymru yn 2022-23, a data RTI wedi hynny (sy'n cipio enillion TWE). Mae'r ffynhonnell olaf yn darparu cyfran Cymru o gyfanswm enillion cyflogaeth cyn treth (h.y. cynnyrch nifer y cyflogaeth ac enillion cyfartalog). Yn absenoldeb gwybodaeth amserol am fathau eraill o incwm NSND, megis incwm SA sy'n dod o fewn NSND, rydym yn cymryd bod y data enillion RTI yn gynrychioliadol o'r cyfanswm. Mae cymhwyso'r dull hwn hyd yma wedi awgrymu ei fod yn rhoi arweiniad rhesymol i symudiadau mewn cyfrannau incwm NSND.
- **Poblogaeth:** y tu hwnt i 2024-25, rydym yn ystyried cyfraddau twf cymharol y boblogaeth i adlewyrchu'r cyfraddau twf rhagamcanol gwahanol yn seiliedig ar

¹² Fodd bynnag, mae'r papur yn nodi sawl maes ar gyfer gwaith datblygu ym maes rhagweld yn y dyfodol. Gweler Murphy Corkhill, J., M. Hanson, ac S. Johal, *Papur Gwaith Rhif 21 OBR: Datblygiadau mewn treth incwm datganoledig*, Hydref 2023.

amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a ryddhawyd ym Ionawr 2022. Mae'r rhain yn dangos bod cyfran Cymru o boblogaeth y DU yn parhau i ostwng, a byddem yn disgwyl i hyn leihau cyfran Cymru o drethdalwyr incwm.¹³ Rydym yn addasu ar gyfer hyn gan ddefnyddio mynegai o gyfran Cymru o boblogaeth oedolion y DU, gyda mynegeion ar wahân ar gyfer y boblogaeth oedran gweithio (y rhai rhwng 16 a 65 oed) a'r boblogaeth oedran pensiwn (y rhai 66 oed a hŷn), gan bwysoli'r ddau yn ôl cyfran y dreth incwm NSND a delir gan bob grŵp. Mae'r dull hwn yn cofnodi tueddiadau o ran heneiddio yn ogystal â maint y boblogaeth.

- Rydym yn cynnwys addasiadau ar gyfer **cymorth rhodd a pholisïau a gyhoeddwyd yn flaenorol** sydd wedi'u gweithredu neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith rhwng blwyddyn sylfaen SPI (2021-22) a diwedd ein rhagolygon, ac y disgwylir iddynt effeithio ar gyfran Cymru, megis y rhewi mewn trothwyon treth incwm hyd at 2027-28.

2.29 Yn olaf, rydym yn cyfrifo'r gyfran o holl dreth incwm Cymru sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru. Ar gyfer y blynyddoedd rhagweld, gwneir hyn drwy 'fodel treth bersonol' CThEF, sy'n seiliedig ar ddata SPI alldro, ac sy'n dilyn yr un fethodoleg a ddefnyddir i amcangyfrif y gyfran sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru yn yr alldro.

Costiadau'r polisi newydd

2.30 Cynhyrchir ein rhagolwg ôl-fesurau trwy ychwanegu effeithiau polisïau newydd a gyhoeddwyd ers ein rhagolwg blaenorol. Mae cyflwyno cyfraddau Cymru a thelerau cysylltiedig y fframwaith cyllidol yn golygu bod angen i ni yn awr asesu effaith polisïau newydd ar bob band unigol o dreth incwm, yn hytrach na'u cost neu'u cynnyrch cyffredinol yn unig.

2.31 Mae llawer o'r ffynonellau cyffredinol o ansicrwydd ynghylch costiadau polisi yr ydym yn eu hamlygu fel mater o drefn yn debygol o gael eu chwyddo wrth i ni ddadgyfuno costau yn ôl daearyddiaeth a band treth. Am y rheswm hwnnw, rydym yn credu bod dull o'r brig i'r bôn yn briodol, gan ganiatáu digon ar gyfer effeithiau anghymesur ar draws gwledydd a bandiau, heb geisio manylrwydd annilys.

Y Rhagolwg Diweddaraf

Rhagolwg treth incwm y DU

2.32 Fel y nodir ym Mhennod 1, mae ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer treth incwm NSND y DU yn seiliedig ar y rhagolwg economi a gyhoeddwyd yn ein EFO ym mis Hydref 2024, tra bod Tabl 2.3 yn nodi'r cyfraddau a'r trothwyon a ddefnyddiwn. Fe wnaeth Llywodraeth flaenorol y DU rewi'r lwfans personol (PA) a'r trothwy cyfradd uwch (HRT) o 2021-22 i 2027-28, sy'n golygu bod yr holl baramedrau yn Nhabl 2.3 yn sefydlog tan hynny. O 2028-29, mae pob

¹³ Gweler Blwch A.2 yn Atodiad A ein *hadroddiad ar gynaliadwyedd cyllidol 2018* am drafodaeth ar y risgiau cyllidol a allai fod yn gysylltiedig â thueddiadau demograffig yng ngwledydd cyfansoddol y DU.

Cyfraddau treth incwm Cymru

trothwy yn codi yn unol â chwyddiant CPI, sy'n golygu eu bod yn cynyddu yn nwy flynedd olaf y rhagolwg.

Tabl 2.3: Paramedrau treth incwm Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

	Y cant					
	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Cyfraddau treth Llywodraeth y DU ar gyfer trethdalwyr Cymru						
Cyfradd sylfaenol	10	10	10	10	10	10
Cyfradd uwch	30	30	30	30	30	30
Cyfradd ychwanegol	35	35	35	35	35	35
Cyfraddau treth incwm Cymru						
Cyfradd sylfaenol	10	10	10	10	10	10
Cyfradd uwch	10	10	10	10	10	10
Cyfradd ychwanegol	10	10	10	10	10	10
Cyfanswm cyfraddau treth incwm						
Cyfradd sylfaenol	20	20	20	20	20	20
Cyfradd uwch	40	40	40	40	40	40
Cyfradd ychwanegol	45	45	45	45	45	45
£						
Trothwyon treth (wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU)						
Lwfans personol	12,570	12,570	12,570	12,570	12,820	13,080
Cyfradd uwch	50,270	50,270	50,270	50,270	51,320	52,380
Cyfradd ychwanegol	125,140	125,140	125,140	125,140	125,640	126,160
Noder: Mae celloedd wedi'u tywyllu yn cynrychioli llinellau sylfaen polisi a dybir at ddibenion rhagweld. Tybiwn y bydd cyfraddau Cymru yn aros yr un fath nes bydd Llywodraeth Cymru yn nodi fel arall.						
Ffynhonnell: OBR						

- 2.33 Mae Tabl 2.4 yn cyflwyno'r rhagolwg ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm NSND y DU sy'n sail i'n rhagolwg cyfradd treth incwm Cymru. Rhagwelir y bydd rhwymedigaethau treth incwm NSND y DU gyfan yn codi o 11.3 y cant o £228 biliwn yn 2022-23 i £253 biliwn yn 2023-24. Mae hyn £1.6 biliwn yn is nag yn ein rhagolwg WTO ym mis Rhagfyr 2023 a £6.7 biliwn yn is na'r hyn a ragwelwyd gennym yn ein EFO ym mis Mawrth 2024 yn bennaf oherwydd adolygiad ar i lawr yn y rhagolwg rhag-fesurau.
- 2.34 Yna rhagwelir y bydd derbyniadau yn cynyddu £29.2 biliwn (11.5 y cant) yn 2024-25, a £13.7 biliwn ar gyfartaledd y flwyddyn (4.5 y cant) wedi hynny. Mae hyn yn sylweddol uwch na'n rhagolygon ar gyfer Rhagfyr a Mawrth. Mae'r cynnydd yn cael ei yrru gan dwf tymor agos cryfach mewn derbyniadau alldro TWE yn 2024-25, twf enillion enwol cryfach ar draws y rhagolwg, a throthwyon treth incwm sydd wedi'u rhewi'n barhaus sy'n cynhyrchu llusgiad cyllidol ychwanegol.
- 2.35 Mae'r rhagolwg yn cynnwys nifer o bolisiau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref, sydd gyda'i gilydd yn codi £4.8 biliwn erbyn 2029-30:
- Pecyn sy'n cynyddu **cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs) cyflogwyr**, yn bennaf trwy godi'r gyfradd a throthwy eilaidd is; pecyn o **fesurau cydymffurfio a dyled treth**; a chyfres o newidiadau i drethiant asedion (megis newidiadau pellach i'r drefn ddi-domisil). Gyda'i gilydd, mae mesurau'r Gyllideb yn cynyddu'r cynnyrch yn

uniongyrchol o £2.7 biliwn yn 2025-26, ac o symiau sy’n codi i £4.5 biliwn yn 2029-30.

- Ochr yn ochr ag effeithiau uniongyrchol y codiadau treth hyn, mae’r llacio cyllidol cyffredinol sylweddol yn y Gyllideb hon yn darparu cynnydd tymor byr pellach i rwymedigaethau NSND drwy **effeithiau anuniongyrchol** pecyn cyllidol cyffredinol ar yr economi. Mae'r effaith gyffredinol yn cael ei gwrthbwysu'n rhannol gan effeithiau anuniongyrchol newidiadau NIC y cyflogwyr, sy'n lleihau cyflogau a chyflogaeth. Mae’r hwb cyffredinol hwn i’r galw yn codi treth incwm NSND £3.7 biliwn yn 2025-26, cyn gostwng i £0.4 biliwn yn 2029-30, wrth i effaith yr ysgogiad cyllidol dros dro bylu.

Tabl 2.4: Rhagolwg y DU gyfan o rwymedigaethau treth ar incwm heb fod yn gynilion, heb fod yn ddifidend

	£ biliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29 2029-30
Rhagolwg Rhagfyr 2023	226.4	254.8	270.0	281.9	296.0	311.6	325.7	
Rhagolwg Mawrth 2024	229.2	259.9	275.8	288.6	302.5	316.5	329.2	
Rhagolwg Rhagfyr 2024	227.6	253.2	282.4	301.9	315.3	327.2	337.9	351.0
Gwahaniaeth o fis Rhagfyr i fis Rhagfyr	1.2	-1.6	12.4	20.0	19.2	15.6	12.2	
Gwahaniaeth o fis Mawrth i fis Rhagfyr	-1.6	-6.7	6.6	13.3	12.8	10.8	8.7	
ac o hyn:								
Aliniad alldro NSND y DU		-1.9	-2.1	-2.3	-2.4	-2.5	-2.5	
Rhagolwg cyn-fesurau		-4.8	6.7	9.1	8.7	7.8	6.4	
Polisiau Llywodraeth y DU			2.1	6.5	6.4	5.4	4.9	4.8
ac o hyn:								
Effeithiau uniongyrchol			0.4	2.7	2.9	3.0	3.5	4.5
Effeithiau anuniongyrchol			1.7	3.7	3.5	2.4	1.4	0.4

Ffynhonnell: OBR

Y gyfran yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

2.36 Mae Tabl 2.5 yn dangos ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfran Cymru a'r newid ers Rhagfyr a Mawrth. Fe'i cyflwynir ar sail rhag-fesurau oherwydd bod effaith mesurau polisi newydd yn cael ei dal mewn termau arian parod yn hytrach na thrwy'r gyfran. Ar y sail hon, mae cyfran Cymru ychydig i lawr o'n rhagolygon Rhagfyr a Mawrth, o 0.02 pwynt canran yr un ar gyfartaledd. Mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu data alldro cyfraddau Cymru gwannach na’r disgwyl yn 2022-23, ac yna alldro gwan RTI yn ystod pedwar mis cyntaf 2024-25 (ynghyd â diwygiadau i gyfrannau poblogaeth sy’n deillio o’r Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Tabl 2.5: Cyfran o rwymedigaethau rhag-fesurau yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

	Canran o gyfanswm y DU ar gyfer rhwymedigaethau nad ydynt yn gynilion, nad ydynt yn ddifidend							
	Alldro	Rhagolwg						
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29 2029-30
Rhagolwg Rhagfyr 2023	1.16	1.17	1.17	1.18	1.18	1.18	1.18	
Rhagolwg Mawrth 2024	1.16	1.17	1.17	1.17	1.17	1.17	1.17	
Rhagolwg Rhagfyr 2024 (cyn-fesurau)	1.15	1.15	1.15	1.15	1.15	1.15	1.15	1.15
Gwahaniaeth o fis Rhagfyr i fis Rhagfyr	0.00	-0.01	-0.02	-0.03	-0.03	-0.02	-0.02	
Gwahaniaeth o fis Mawrth i fis Rhagfyr	-0.01	-0.01	-0.02	-0.02	-0.02	-0.01	-0.01	
Memo: Mynegai poblogaeth		100.00	99.87	99.78	99.72	99.66	99.54	99.42
Newid yn y mynegai o'r boblogaeth gymharol ers mis Mawrth		0.00	-0.05	-0.05	-0.06	-0.07	-0.07	
Memo: Mynegai RTI (2022-23 = 100)		100.20	99.68	99.68	99.68	99.68	99.68	99.68
Newid yn y mynegai RTI ers mis Mawrth		-0.24	-0.76	-0.76	-0.76	-0.76	-0.76	
Memo: Mynegai cyfun		100.2	99.6	99.5	99.4	99.3	99.2	99.1
Ffynhonnell: OBR								

Y rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru

- 2.37 Mae Tabl 2.6 yn nodi ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a dadansoddiad o'r newidiadau ers mis Rhagfyr a mis Mawrth, tra bod Tabl 2.7 yn dangos y rhagolwg fesul band treth. O'i gymharu â mis Rhagfyr, rydym wedi diwygio'r rhagolwg i lawr o £48 miliwn yn 2023-24, gan adlewyrchu'r diwygiadau ar i lawr i rwymedigaethau NSND y DU. Ond rydym wedi diwygio i fyny y rhagolwg ym mhob blwyddyn o 2024-25 ymlaen, ar gyfartaledd o £113 miliwn (3.3 y cant), gyda'r gwahaniaeth yn cyrraedd uchafbwynt o £148 miliwn yn 2026-27.Mae'r diwygiadau hyn ar i fyny i raddau helaeth yn adlewyrchu effaith gyfunol y newidiadau i'n rhagolwg NSND y DU (sydd wedi'i ysgogi i raddau helaeth gan dwf enillion cryf) ac effaith mesurau Cyllideb Llywodraeth y DU.
- 2.38 O'i gymharu â mis Mawrth, mae'r rhagolwg wedi cynyddu £70 miliwn (2.0 y cant) ar gyfartaledd. Mae'r newidiadau hyn hefyd i raddau helaeth yn adlewyrchu diwygiadau ar i fyny i'n rhagolwg ar gyfer y DU gyfan, sy'n cynyddu'r rhagolwg £63 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ac yn cyfrif am 90 y cant o'r diwygiadau ers mis Mawrth. Mae polisïau Cyllideb Llywodraeth y DU (a ddisgrifir uchod) hefyd yn cyfrannu £64 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd diwygiadau i gyfran Cymru yn gwrthbwyso'r codiadau hyn yn rhannol. Mae gwahaniaethau rhwng ein rhagolygon Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024 yn egluro gweddill y gwahaniaeth rhwng ein rhagolygon WTO presennol a Rhagfyr 2023 Roedd newidiadau ym mis Mawrth i raddau helaeth yn adlewyrchu data alldro NSND y DU uwch na'r disgwyl o ganlyniad i nodi derbyniadau TWE ychwanegol a ddarganfuwyd mewn alldro gan CThEF.

Tabl 2.6: Rhagolwg cyfraddau treth incwm Cymru

	£ miliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29 2029-30
Rhagolwg Rhagfyr 2023	2,616	2,972	3,171	3,322	3,487	3,668	3,827	
Rhagolwg Mawrth 2024	2,649	3,032	3,233	3,377	3,534	3,700	3,845	
Rhagolwg Rhagfyr 2024	2,618	2,924	3,257	3,462	3,635	3,782	3,903	4,060
Gwahaniaeth o fis Rhagfyr i fis Rhagfyr	2	-48	86	140	148	114	76	
Gwahaniaeth o fis Mawrth i fis Rhagfyr	-31	-109	24	85	101	81	58	
ac o hyn:								
Modelu cyfran Cymru		-31	-52	-54	-48	-46	-46	
Aliniad alldro NSND y DU		-22	-25	-26	-27	-28	-29	
Newidiadau i ragolygon NSND y DU		-56	78	106	102	91	74	
Polisiâu Llywodraeth y DU			23	58	74	64	59	68
ac o hyn:								
Treth asedau yn codi			2	8	23	28	34	51
Gwrth-osgoi a chydymffurfio CThEF			1	6	7	7	7	8
Effeithiau uniongyrchol			0	1	4	2	2	5
Effeithiau anuniongyrchol			20	43	40	27	16	4

Ffynhonnell: OBR

Tabl 2.7: Rhagolwg cyfraddau Cymru o rwymedigaethau treth ar incwm NSND fesul band treth

	£ miliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29 2029-30
Rhagolwg Rhagfyr	2,618	2,924	3,257	3,462	3,635	3,782	3,903	4,060
ac o hyn:								
Cyfradd sylfaenol	2,225	2,464	2,726	2,881	3,010	3,118	3,219	3,348
Cyfradd uwch	333	371	430	471	505	537	550	569
Cyfradd ychwanegol	61	89	101	111	120	126	134	143
Y cant								
Cyfradd sylfaenol	85.0	84.3	83.7	83.2	82.8	82.5	82.5	82.5
Cyfradd uwch	12.7	12.7	13.2	13.6	13.9	14.2	14.1	14.0
Cyfradd ychwanegol	2.3	3.0	3.1	3.2	3.3	3.3	3.4	3.5

Ffynhonnell: OBR

Ansicrwydd Allweddol

2.39 Mae sawl ffynhonnell o ansicrwydd ynghylch ein rhagolwg ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm yn ddarostynedig i gyfraddau Cymru, ac rydym yn amlinellu rhai ohonynt yn gynharach yn y bennod. Rydym yn crynhoi rhai o'r rhai pwysicaf sy'n weddill yma.

Cyflogaeth ac anweithgarwch

2.40 Yn syth ar ôl y pandemig, fe wnaeth nifer y bobl o oedran gweithio a ddosbarthwyd yn anweithgar yn y DU neidio o bron [690,000] ar ei anterth, ac mae wedi codi ers hynny i [840,000 yn uwch] na lefelau cyn-bandemig. Y prif reswm dros hyn oedd bod unigolion yn nodi salwch hirdymor fel eu prif reswm dros aros allan o'r farchnad lafur.¹⁴ Fe wnaethom archwilio effeithiau cyllidol hirdymor ar iechyd y boblogaeth o oedran gweithio yn ein hadroddiad diweddaraf ar *risgiau cyllidol a chynaliadwyedd*, a ddangosodd y gallai reffeniw treth leihau 0.6 y cant o GDP o dan senario 'iechyd gwaeth' yn y tymor hwy.¹⁵ Mae anweithgarwch yng Nghymru wedi bod yn gymharol uchel yn hanesyddol ac, yn yr un modd â'r DU gyfan, cynyddodd yn sydyn yn y cyfnod ôl-bandemig. Os yw anweithgarwch yn gwyo oddi wrth ein rhagolwg canolog, yna mae'n peri risg tuag i lawr i'n rhagolwg a gallai unrhyw effeithiau yn y dyfodol gael effeithiau anghymesur ar Gymru.

Twf cynhyrchiant ac enillion cyfartalog

2.41 Mae ein rhagolygon treth incwm ar gyfer y DU gyfan a Chymru yn sensitif i'r rhagdybiaethau a wnawn am dwf mewn cynhyrchiant llafur, sef penderfynydd allweddol twf enillion gwirioneddol. Yn ein EFO ym mis Hydref 2024 rydym yn rhagweld twf cynhyrchiant cyfartalog blynyddol o tua 1 y cant dros y pum mlynedd nesaf. Er bod hyn yn uwch na'r gyfradd twf o $\frac{2}{3}$ y cant yn y degawd yn dilyn yr argyfwng ariannol, mae'n llawer is na'r gyfradd $2\frac{1}{4}$ y cant a welwyd yn y degawd cyn yr argyfwng. Yn ein EFO ym mis Tachwedd 2023 fe wnaethom amcangyfrif y byddai $\frac{1}{2}$ y cant yn uwch o'r twf is mewn cynhyrchiant yn lleihau neu'n codi benthyca gan Lywodraeth y DU tua £40 biliwn yn 2029-30. Dyma ein barn ragolygon wayaf pwysig ac ansicr o hyd. Ymhlith y ffactorau a fydd yn effeithio ar dwf cynhyrchiant mae datblygiadau mewn masnach ryngwladol, diwygio domestig ar yr ochr gyflenwi, a chynnydd technolegol byd-eang.

Yr Arolwg o ddata sylfaen Incymau Personol

2.42 Mae cynrychioldeb y dosbarthiadau daearyddol ac incwm a adroddwyd yn y data sylfaen SPI yn bwysig ar gyfer ein rhagolygon. Mae'r SPI wedi'i gynllunio i fod yn gynrychioliadol ar lefel y DU, ond nid yw'r sampl wedi'i haenu yn ôl daearyddiaeth (h.y. mae samplau llai ym mhob ardal ddaearyddol yn golygu ei fod yn debygol o fod yn llai cynrychioliadol ar y lefelau hynny nag y mae ar lefel y DU). Yn y fersiwn ddiweddaraf, dim ond 0.4 y cant oedd y cyfwng hyder o amgylch yr amcangyfrif SPI o rwymedigaethau treth ar lefel y DU, ond i Gymru roedd yn 3.5 y cant yn fwy perthnasol. Mae amrywiadau samplu – yn arbennig oherwydd y nifer fach o arsylwadau gan drethdalwyr incwm uchel yng Nghymru – felly yn un ffynhonnell risg allweddol i'r rhagolwg. Mae gennym y data alldro ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm Cymru ac felly gallwn ni raddnodi rhagolygon i gyfran yr alldro. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y data mewnbyn ar gyfer ein rhagolwg cyfraddau Cymru yn parhau i fod yn risg.

¹⁴ Gweler Pennod 2 ein hadroddiad *Risgiau cyllidol a chynaliadwyedd 2023*.

¹⁵ Gweler Pennod 3 ein hadroddiad *Risgiau cyllidol a chynaliadwyedd 2024*.

Box 2.1: Gwerthuso ein rhagolygon ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23

Fe wnaeth CThEF gyhoeddi data alldro 2022-23 ar gyfer cyfraddau Cymru ym mis Gorffennaf 2024. Mae asesu perfformiad ein rhagolygon yn bwysig ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd, tra hefyd yn ein helpu i ddeall a nodi ffyrdd o'u gwella. Byddwn ni'n cyhoeddi asesiad manwl yn ein diweddariad WTO 2024 a fydd yn cyd-fynd â'r Gyllideb derfynol y flwyddyn nesaf. Cyn hyn cyflwynwn drafodaeth ragarweiniol yn y Blwch hwn. Mae Tabl A yn cyflwyno'r data alldro ochr yn ochr â'n chwe rhagolwg ar gyfer 2022-23, ar gyfer cyfraddau Cymru a chyfran Cymru rhag-fesurau treth incwm NSND y DU.


Tabl A: Rhagolygon olynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a'r gyfran o rwymedigaethau rhag-fesurau sy'n ddarostyngedig i gyfradd Cymru (2022-23)

Mae Siart A yn dadansoddi'r gwahaniaethau cyffredinol rhwng yr un chwe rhagolwg a'r alldro ar gyfer 2022-23 i'r rhai sy'n ymwneud â rhagolwg NSND y DU a'r rhai sy'n deillio o'n hamcangyfrif o'r gyfran o'r cyfanswm yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru. Ar lefel uchel, mae'n dangos ein bod wedi tanamcangyfrif cyfran Cymru bob tro, tra gwnaethom oramcangyfrif rhagolwg NSND y DU bedair o chwe gwaith. Mae hyn yn wahanol i'n rhagolygon ar gyfer 2021-22, lle roedd y gwrthwyneb yn wir. Ar sail rhagolwg-wrth-ragolwg:

- **Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaethom danamcangyfrif derbyniadau 5.4 y cant.** Mae'r gwahaniaeth mawr hwn yn cael ei yrru gan yr ansicrwydd digynsail yn dilyn y pandemig Covid. Mae'r tanamcangyfrif yn fwy na'r hyn a eglurir gan ragolwg NSND y DU, gyda derbyniadau ar gyfer y DU gyfan yn adfer yn gryfach nag a ragwelwyd gennym ym mis Rhagfyr 2021, yn rhannol oherwydd y cryfder a welwyd mewn twf cyflog enillion enwol yng nghanol y chwyddiant uchel a welwyd o ddiwedd 2021 ymlaen, wedi'i chwyddo erbyn dechrau'r rhyfel yn yr Wcrain. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso ychydig gan ein goramcangyfrif o gyfran Cymru.
- **Yn y pum rhagolwg wedi hynny, mae'r gwall rhagolwg absoliwt cyfartalog wedi bod yn llawer is ar 0.7 y cant.** Gwall rhagolwg Mawrth 2022 oedd 1.0 a gostyngodd i 0.1 y cant ym mis Rhagfyr 2023. Y gwall rhagolwg ym mis Mawrth 2024 oedd 1.2 y cant, oherwydd tanamcangyfrif o rwymedigaethau'r DU gyfan ac o rwymedigaethau Cymru. Fe wnaethom danamcangyfrif derbyniadau mewn tri o'r rhagolygon hyn, a goramcangyfrif derbyniadau mewn dau, gan arwain at gamgymeriad cyffredinol o 0.5 y

cant, heb gynnwys ein rhagolwg Rhagfyr 2021, sy'n dangos nad yw ein rhagolygon yn dangos tuedd i unrhyw un cyfeiriad.

Siart A: Gwahaniaethau olynol a ragwelir ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru (2022-23)



Ffynhonnell: CthEF, OBR

Nid yw perfformiad ôl-Rhagfyr 2021 ein rhagolwg yn awgrymu bod tuedd neu ffynhonnell barhaus o wallau yn ein rhagolwg o gyfraddau treth incwm Cymru. Serch hynny, byddwn ni'n parhau i chwilio am ffyrdd o wella'r rhagolwg. Er enghraifft, ers i ni ddechrau rhagweld cyfraddau treth incwm Cymru, rydym wedi mireinio ein mynegai 'poblogaeth' drwy rannu hwn yn boblogaethau oedran gweithio ac oedran pensiwn. Byddwn ni'n parhau i geisio enillion ychwanegol o ddefnyddio data RTI, yn enwedig ar lefel fwy dadgyfunedig, yn dadelfennu ymhellach ein dadansoddiad o incwm cyflogaeth fesul sector, oedran a chymhwyster, ac yn ystyried a yw cynnydd olynol Llywodraeth y DU uwchlaw chwyddiant yn y lwfans personol yn ystod y 2010au (a'r achlysuron rhewi dilynol ym mhob trothwy) wedi effeithio'n anghymesur ar Gymru.

3 Treth trafodiadau tir

Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon:

- yn disgrifio **cyflwyniad treth trafodiadau tir (LTT)** yng Nghymru ac yn ei chymharu â threfn treth dir y dreth stamp (SDLT) sydd ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon;
- yn amlinellu ein **methodoleg ar gyfer rhagweld LTT** ac yn archwilio tueddiadau mewn **prisiau eiddo a thrafodiadau** yng Nghymru sy'n ysgogi twf yn sylfaen dreth y dreth trafodiadau tir;
- yn cyflwyno ein **rhagolygon diweddaraf** ac yn esbonio sut maent wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf; ac
- yn trafod rhai o'r **risgiau a'r ansicrwyddau** allweddol ynghylch y rhagolygon hyn.

Treth trafodiadau tir

3.2 Mae treth trafodiadau tir (LTT) wedi disodli treth dir y dreth stamp (SDLT) yng Nghymru o fis Ebrill 2018.¹ Mae'n dreth trafodiadau *ad valorem* a godir ar drosglwyddo eiddo. Mae gan LTT lawer o'r un nodweddion ag SDLT gan gynnwys triniaeth wahanol ar gyfer eiddo preswyl a masnachol, trothwy di-dreth, a gordal ar brynu eiddo eiddo preswyl ychwanegol. Ond mae rhai gwahaniaethau nodedig: mae gan LTT gyfraddau a throthwyon gwahanol; nid yw'n cynnwys rhyddhad i brynwyr tro cyntaf; ac fe'i cesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn hytrach na chan CThEF.

Methodoleg rhagweld

3.3 Mae'r fethodoleg ar gyfer cynhyrchu ein rhagolygon LTT yn cynnwys tri cham.² Y rhain yw:

- Yn gyntaf, rydym yn cynhyrchu **amcangyfrif o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn** sy'n defnyddio data alldro derbyniadau misol gan ACC fel ei fan cychwyn. Yn nodweddiadol, rydym yn grosio derbyniadau'r flwyddyn hyd yma trwy ragdybio bod gweddill y flwyddyn yn dilyn llwybr tebyg i flynyddoedd blaenorol, wedi'i ychwanegu

¹ Mae'r ddwy dreth wedi'u seilio'n fras ar y 'dreth stamp' hanesyddol, sef un o'r mathau hynaf o drethiant a gyflwynwyd yn wreiddiol ar amrywiaeth o gynhyrchion ym 1694. Roedd y ddyletswydd wreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â thrafodiad gael eu dilysu drwy gyfrwng 'stamp' ffisegol. Disodlwyd y dreth stamp gan SDLT ym mis Rhagfyr 2003.

² I gael rhagor o fanylion am ein methodoleg rhagolygon gweler Pennod 3 o'n *Rhagolwg Trethi Cymru Rhagfyr 2019* a thudalen 'Rhagolwg Trethi Cymru' ar ein gwefan.

Treth trafodiadau tir

yn ôl yr angen gan wybodaeth am y rhagolygon tymor byr ar gyfer y farchnad eiddo a'r economi.

- Nesaf, rydym yn cynhyrchu ein **rhagolwg rhag-fesurau tymor canolig** gan ddefnyddio pedwar model ar wahân - un yr un ar gyfer prif gyfraddau preswyl, y gordal eiddo ychwanegol, gwerthiannau masnachol, a phrydlesi masnachol.³ Mae'r modelau'n cyfuno trafodiadau o fewn segmentau cymharol fach o'r farchnad eiddo, gan gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus ar y pris cyfartalog ym mhob segment, ac yna rhagamcanu hynny ymlaen yn unol â'n rhagolygon ar gyfer prisiau a thrafodiadau.⁴
- Yn olaf, rydym yn ychwanegu amcangyfrifon o effeithiau unrhyw **fesurau polisi newydd** i gynhyrchu ein rhagolygon ôl-fesurau.

Penderfynyddion y farchnad eiddo o'r rhagolwg

- 3.4** Y sbardun pwysicaf o bell ffordd i'n rhagolwg ar gyfer derbyniadau Treth Trafodiadau Tir yn y tymor canolig yw ein rhagolwg ar gyfer twf yng ngwerth trafodiadau eiddo, sydd yn ei dro yn adlewyrchu rhagdybiaethau ynghylch rhagolygon ar gyfer prisiau eiddo a nifer y trafodiadau. Mae gweithgarwch ym marchnadoedd eiddo Cymru a'r DU gyfan wedi adlamu dros hanner cyntaf 2024, gyda phrisiau a thrafodiadau'n profi'n fwy gwydn nag yr oeddem yn ei ddisgwyl yn flaenorol.


Prisiau eiddo

- 3.5** Dengys Siart 3.1 fod y **twf blynyddol mewn prisiau tai** wedi cyrraedd ei lefel isaf o -2.6 y cant ym mis Hydref a mis Tachwedd 2023 yng Nghymru a'r DU yn y drefn honno, gyda chyfraddau llog uwch yn effeithio ar y galw. Fodd bynnag, ers dechrau 2024 mae prisiau tai wedi bod yn cynyddu'n gyson yng Nghymru a'r DU, gyda thwf prisiau yng Nghymru a'r DU yn hofran tua 3 y cant yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r farchnad dai wedi dangos mwy o wytnwch na'r disgwyl sy'n gyson â thwf GDP cryfach na'r disgwyl yn hanner cyntaf 2024.

³ Mae'r modelau hyn yn cael eu gweithredu ar ein rhan gan ddadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru, ond y rhagdybiaethau a'r dyfarniadau rhagolwg sylfaenol yw rhai Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol yr OBR.

⁴ Mae'r fethodoleg ar gyfer rhagweld y rhain wedi'i nodi ar dudalennau 'Manwl' ein gwefan.

Siart 3.1: Twf prisiau tai: Cymru yn erbyn y DU gyfan



Ffynhonnell: SYG

3.6 Cynyddodd prisiau eiddo masnachol (fel y'u mesurwyd gan bris cyfartalog trafodiadau a gofnodwyd gan yr awdurdodau treth priodol) yng Nghymru gan 45.5 y cant yn hanner cyntaf 2024-25, o gymharu â 2023-24 yn dilyn cwymp o 22.4 y cant yn y cyfnod cyfatebol yn 2023-24. Mewn cyferbyniad, gostyngodd prisiau 9.1 yn y DU dros y cyfnod cyfatebol yn 2024-25. Mae prisiau eiddo masnachol fel arfer yn llawer mwy cyfnewidiol na phrisiau preswyl oherwydd gallant gael eu heffeithio gan drafodiadau mawr unigol. Mae prisiau masnachol Cymru yn seiliedig ar lai na 2,000 o drafodiadau bob chwarter, felly gallant gael eu dylanwadu'n arbennig gan drafodiadau mawr sengl.

Trafodiadau eiddo

3.7 Mae trafodiadau eiddo preswyl misol yng Nghymru a'r DU gyfan wedi dilyn llwybr gweddol debyg dros y 18 mis diwethaf (Siart 3.2). Yn y ddau achos mae trafodiadau yn chwe mis cyntaf 2024-25 wedi bod yn uwch na'r cyfnod cyfatebol yn 2023-24. Mae trafodiadau yng Nghymru yn y flwyddyn hyd yma 7.4 y cant yn uwch, tra bod y cynnydd cyfatebol yn y DU yn 9.4 y cant. Mae hyn yn dilyn gostyngiadau o 17.8 ar gyfer 2023-24 i gyd o gymharu â 2022-23, yng Nghymru ac yn y DU.

Treth trafodiadau tir


Siart 3.2: Trafodiadau eiddo preswyl



Ffynhonnell: CThEF, ACC

3.8 Mae trafodiadau eiddo masnachol yng Nghymru i raddau helaeth wedi adlewyrchu'r rheini yn y DU gyfan ar gyfer llawer o 2023-24 a 2024-25 (Siart 3.3). Fodd bynnag, fe fu ychydig o ddargyfeirio yn ddiweddar gyda thrafodiadau'r flwyddyn hyd yma (Ebrill-Medi) i lawr 2.9 y cant yng Nghymru ond i fyny 3.0 y cant yn y DU gyfan, o gymharu â'r un cyfnod yn 2023.

Siart 3.3: Trafodiadau eiddo masnachol



Ffynhonnell: CThEF, ACC


Rhagolygon ar gyfer penderfynyddion y farchnad eiddo

3.9 Mae ein rhagolygon ar gyfer trethi trafodiadau eiddo wedi'u tanategu gan ein rhagolygon marchnad eiddo ar gyfer y DU gyfan. Rydym yn rhagdybio bod prisiau a thrafodiadau

Cymru yn symud yn unol â'r rheini ar gyfer y DU gyfan, oni bai bod rhesymau amlwg dros wroddi wrth hynny. Yn ymarferol, mae unrhyw wahaniaeth tybiedig fel arfer yn defnyddio gwahanol ragdybiaethau prisiau ar gyfer tai Cymreig yn y tymor agos cyn rhagdybio cydgyfeiriant o ail neu drydedd flwyddyn y rhagolwg. Mae Siart 3.4 yn dangos bod prisiau tai yng Nghymru, yn hanesyddol, wedi dilyn llwybr tebyg i'r rhai yn y DU gyfan, gyda chyfnodau cymharol fach o ddargyfeirio tymor byr.

- 3.10** Yn y rhagolwg hwn, rydym yn rhagdybio y bydd prisiau tai a thrafodiadau yn y DU a Chymru yn symud gyda'i gilydd dros gyfnod y rhagolwg. Mae hyn yn gyson â'r patrwm hanesyddol a drafodwyd uchod a gyda data alldro diweddar yn dangos bod datblygiadau yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf 2024-25 wedi bod yn debyg i'r rhai yn y DU (Siart 3.1 a Siart 3.2).

Siart 3.4: Tueddiadau hanesyddol mewn prisiau tai



Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir

- 3.11** Rydym wedi adolygu ein rhagolygon prisiau tai ar gyfer y DU a Chymru yn 2024-25 ers ein rhagolwg ym mis Chwefror, oherwydd y data alldro cryfach na'r disgwyl. Yn hytrach na gostwng ychydig, fel yr oeddem yn ei ddisgwyl ym mis Chwefror, disgwylir nawr i brisiau godi 2.5 y cant ar y llynedd. Wedi hynny, rhagdybir bod twf prisiau ychydig yn is na'r rhagolwg blaenorol. Mae hyn yn golygu bod prisiau tai cyfartalog yn uwch na mis Chwefror drwy gydol y rhagolwg, oherwydd eu cryfder diweddar. Mae trafodiadau preswyl hefyd wedi'u hadolygu'n sylweddol yn 2024-25 o gymharu â mis Chwefror, gan adlewyrchu'r un cryfder yn yr alldro. Yn y tymor canolig mae twf blynyddol yn cael ei adolygu i lawr wrth i ni ddisgwyl llai o ychwanegiadau net i'r stoc tai, sy'n lleihau'r cyflenwad.
- 3.12** Rydym yn tybio y bydd prisiau masnachol yn gostwng ychydig yn 2024-25 ac yn tyfu'n gymedrol wedi hynny, gyda diwygiadau bach tymor agos ar i fyny o gymharu â'n rhagolwg ym mis Chwefror. Gan fod y cryfder a welwyd ym mhrisiau masnachol y flwyddyn hyd yn hyn yng Nghymru wedi'i ddylanwadu gan un trafodiad mawr (a esbonnir ym mharagraff 3.6), rydym wedi cymryd yn ganiataol nad yw'r cryfder hwn yn parhau drwy gydol cyfnod y

Treth trafodiadau tir

rhagolwg. Mae twf blynyddol mewn trafodiadau masnachol wedi'i ddiwygio i lawr tua 4.0 pwynt canran yn y ddwy flynedd nesaf, gan arwain at lwybr mwy cyson ar draws y rhagolwg.

Tabl 3.1: Rhagolygon ar gyfer prisiau a thrafodiadau eiddo yng Nghymru

	Newid canrannol ar y flwyddyn flaenorol						
	Alldro	Rhagolwg					
		2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Prisiau eiddo preswyl	-0.8	2.5	1.1	2.4	2.9	3.0	3.0
Trafodiadau eiddo preswyl	-17.1	11.7	5.7	6.2	6.0	4.1	2.7
Prisiau eiddo masnachol	-9.2	-0.5	3.3	1.8	1.8	1.9	2.0
Trafodiadau eiddo masnachol	-3.2	1.3	1.5	1.9	1.8	1.7	1.7
Newid ers rhagolwg Chwefror							
Prisiau eiddo preswyl		7.4	0.0	-1.2	-0.8	-0.8	
Trafodiadau eiddo preswyl		15.1	-2.7	-5.0	-5.3	-5.2	
Prisiau eiddo masnachol		0.8	1.7	0.2	0.0	0.0	
Trafodiadau eiddo masnachol		2.6	-4.6	-3.5	-0.1	-0.1	
Ffynhonnell: OBR							


Ffynhonnell: OBR

Tueddiadau mewn derbyniadau LTT

Derbyniadau eiddo preswyl

3.13 Mae Siart 3.5 yn dangos bod derbyniadau LTT preswyl (net o ad-daliadau) yn ystod chwe mis cyntaf 2024-25 i fyny £14.3 miliwn (13.8 y cant) ar 2023-24 ond i lawr £34.4 miliwn (22.6 y cant) ar 2022-23. Rydym yn disgwyl i'r cryfder hwn barhau yn ail hanner y flwyddyn, a rhagwelir y bydd cyfanswm y derbyniadau yn 2024-25 £35.5 miliwn (17.3 y cant) yn uwch na'r alldro yn 2023-24.

Siart 3.5: Derbyniadau LTT preswyl cronuss




Ffynhonnell: ACC, OBR

Derbyniadau eiddo masnachol

3.14 Mae Siart 3.6 yn dangos bod derbyniadau masnachol y flwyddyn hyd yn hyn i lawr £10.1 miliwn (17.4 y cant) o'i gymharu â 2022-23, ond eu bod wedi cynyddu'n sylweddol gan £17.8 miliwn (59.1 y cant) o gymharu â 2023-24. Gan fod y cryfder hwn yn cael ei ysgogi i raddau helaeth gan y trafodiad mawr sengl a amlinellir ym mharagraff 3.6, rydym yn disgwyl i reffeniw arafu ychydig yn ystod misoedd y flwyddyn sy'n weddill, gan ddod i gyfanswm o £13.8 miliwn (21.3 y cant) yn gyffredinol yn is nag yn 2023-24.

Siart 3.6: Derbyniadau treth trafodiadau tir masnachol cronus



Ffynhonnell: ACC, OBR

Y Rhagolygon LTT diweddaraf

3.15 Mae Tabl 3.2 yn nodi ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer LTT a'i gydrannau. O'i gymharu â mis Chwefror, mae derbyniadau wedi'u hadolygu i fyny ym mhob blwyddyn o'r rhagolwg a £51 miliwn (16 y cant) ar gyfartaledd. Rydym yn rhagweld y bydd y derbyniadau'n cynyddu £211 miliwn ar draws cyfnod cyfan y rhagolwg, wedi'i ysgogi'n bennaf gan dderbyniadau preswyl.

Tabl 3.2: Y Rhagolwg LTT

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Cyfanswm LTT							
Rhagolwg Chwefror	270	244	271	317	367	429	
Rhagolwg Rhagfyr	270	319	338	371	410	446	481
Newid		76	66	55	44	17	
Preswyl (ac eithrio eiddo ychwanegol)							
Rhagolwg Chwefror	140	120	134	163	197	234	
Rhagolwg Rhagfyr	140	167	179	202	230	256	281
Newid		47	45	40	33	21	
Eiddo ychwanegol							
Rhagolwg Chwefror	62	58	66	78	90	112	
Rhagolwg Rhagfyr	62	74	90	98	106	113	119
Newid		16	24	20	16	0	
Masnachol							
Rhagolwg Chwefror	67	65	71	76	79	83	
Rhagolwg Rhagfyr	67	79	68	71	74	77	81
Newid		13	-3	-5	-5	-5	
Ffynhonnell: OBR							

Y Rhagolwg LTT preswyl

- 3.16 Mae Tabl 3.3 yn nodi’r diwygiadau i’n rhagolygon LTT preswyl ers mis Chwefror. Mae prif gyfraddau preswyl wedi’u hadolygu i fyny ym mhob blwyddyn o’r rhagolwg, ar gyfartaledd o £37 miliwn y flwyddyn (22 y cant). Mae hyn yn cael ei yrru’n bennaf gan welliannau i’n rhagolygon prisiau a thrafodiadau preswyl, sy’n adlewyrchu rhagolygon mwy cadarnhaol ar gyfer y farchnad dai o gymharu â’n rhagolwg ym mis Chwefror.
- 3.17 Mae Tabl 3.4 yn cyflwyno’r newidiadau i’n rhagolwg cyfraddau ychwanegol, sydd hefyd wedi’i ddiwygio o’i gymharu â mis Chwefror tan 2027-28, ar gyfartaledd o £19 miliwn y flwyddyn (26 y cant), cyn dychwelyd i sefyllfa debyg fel yn ein rhagolwg mis Chwefror yn 2028-29. Mae hyn yn bennaf yn cael ei ysgogi gan gynnydd yn ein rhagolygon prisiau a thrafodiadau, cyn i’r effaith hon leihau.
- 3.18 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi cynnydd o 1 pwynt canran i’r bandiau cyfradd uwch preswyl, o 11 Rhagfyr 2024 ymlaen. Mae hyn yn cynyddu’r cyfraddau ychwanegol a ragwelir o £11 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd o 2025-26 ymlaen.⁵ Mae'r cynnydd sefydlog mewn derbyniadau o ganlyniad i’r newid hwn yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan newidiadau mewn prisiau a thrafodiadau. Dim ond y gyfradd wastad 5 y cant uwch, h.y. y ‘gordal’ a delir ar bob trafodiad ar anheddau ychwanegol, sydd wedi’i chynnwys yn ein rhagolwg cyfraddau ychwanegol, gyda’r gyfran o LTT ar drafodiadau anheddau ychwanegol sy’n dynwared y drefn ar gyfer prif breswylfeydd a adlewyrchir yn ein prif ragolwg cyfraddau. Mae hyn yn golygu y disgwylir i’r gostyngiad mewn trafodiadau o

⁵ Mae newidiadau i ryddhad anheddau lluosog a gweithgarwch cydymffurfio LTT ychwanegol yn esbonio gweddill y llinell ‘newidiadau polisi’ o fewn y rhagolwg cyfraddau ychwanegol. Rydym yn disgrifio'r rhain yn fanylach ym mharagraff 1.6.

ganlyniad i'r newid polisi leihau derbyniadau prif gyfraddau o £3 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.

Tabl 3.3: Y Rhagolwg LTT prif gyfraddau preswyl

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Rhagolwg Chwefror	140	120	134	163	197	234	
Rhagolwg Rhagfyr	140	167	179	202	230	256	281
Newid		47	45	40	33	21	
ac o hyn:							
Newidiadau prisiau		26	29	29	31	31	
Newidiadau trafodiadau		22	20	14	6	-6	
Data alldro a modelu		0	0	0	-1	-1	
Newidiadau polisi		-1	-4	-3	-3	-3	
Ffynhonnell: OBR							

Ffynhonnell: OBR

Tabl 3.4: Y Rhagolwg LTT Cyfraddau preswyl ychwanegol

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Rhagolwg Chwefror	62	58	66	78	90	112	
Rhagolwg Rhagfyr	62	74	90	98	106	113	119
Newid		16	24	20	16	0	
ac o hyn:							
Newidiadau prisiau		5	5	5	5	5	
Newidiadau trafodiadau		11	9	5	1	-3	
Data alldro a modelu		-4	-4	-5	-6	-17	
Newidiadau polisi		4	14	15	16	16	
Ffynhonnell: OBR							

Ffynhonnell: OBR

Y Rhagolwg LTT masnachol

3.19 Mae Tabl 3.5 yn dangos newidiadau i'n rhagolwg LTT masnachol o gymharu â mis Chwefror. Mae derbyniadau wedi cael eu hadolygu i fyny £13 miliwn (20 y cant) yn 2024-25 ond yna eu diwygio i lawr wedi hynny gan gyfartaledd o £4 miliwn y flwyddyn (6 y cant). Mae derbyniadau 2024-25 wedi'u hadolygu i fyny oherwydd alldro cryfach na'r disgwyl yn ystod y misoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd un trafodiad mawr. Rydym yn rhagdybio mai rhywbeth un-tro yw hwn ac felly nid ydym yn gwthio'r cryfder hwn drwy'r rhagolwg.

Tabl 3.5: Y Rhagolwg LTT masnachol

	£ miliwn						
	Alldro		Rhagolwg				
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Rhagolwg Chwefror	67	65	71	76	79	83	
Rhagolwg Rhagfyr	67	79	68	71	74	77	81
Newid		13	-3	-5	-5	-5	
ac o hyn:							
Newidiadau prisiau		1	2	3	3	3	
Newidiadau trafodiadau		2	-1	-4	-4	-4	
Data alldro a modelu		11	-4	-4	-4	-4	
Newidiadau polisi		0	0	0	0	0	

Ffynhonnell: OBR

Risgiau ac ansicrwyddau

- 3.20** Yn yr adran hon rydym yn crynhoi rhai o'r prif ansicrwyddau ynghylch ein rhagolwg LTT canolog. Unwaith eto mae'r rhain yn cael eu dominyddu gan y risgiau i brisiau eiddo a thrafodiadau o ystyried y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog a'r llwybr ansicr ar gyfer chwyddiant CPI. Mae'r risgiau'n gytbwys. Ar yr ochr negyddol, mae risg y bydd enillion enwol a chwyddiant yn parhau i fod yn fwy cyson na'r disgwyl, gan arwain at gyfraddau llog uwch. Ond mae'n bosibl hefyd y bydd cyfraddau llog yn disgyn yn gyflymach na'r disgwyl, er enghraifft os na fydd twf economaidd yn gwella fel y disgwylwn. Mae hefyd yn wir y gallai prisiau tai barhau i ddangos mwy o wydnwch i gyfraddau llog uwch nag a ragwelwyd gennym mewn rhagolygon diweddar.
- 3.21** Mae'r farchnad eiddo masnachol yn gyffredinol sensitif i'r rhagolygon economaidd cyffredinol, ond mae ansicrwyddau hefyd yn sgil newidiadau posibl yng nghyfansoddiad gweithgarwch economaidd, megis mwy o achosion o weithio gartref neu dwf pellach mewn manwerthu ar-lein.
- 3.22** Yn y rhagolwg hwn nid ydym wedi rhagdybio unrhyw wahaniaeth mewn prisiau tai neu drafodiadau rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol, ac felly mae hyn yn parhau i fod yn ffynhonnell ansicrwydd, er bod llwybrau'r ddau wedi bod yn gymharol debyg yn y DU a Chymru yn y misoedd diwethaf.
- 3.23** Mae risgiau eraill sy'n ymwneud â'n rhagolygon LTT yn cynnwys:
- **Mapio penderfynyddion y farchnad eiddo i'r wir sylfaen dreth.** Mae'n heriol mapio o'r farchnad eiddo gyfan i'r trafodiadau hynny a fydd yn destun LTT yn unig. Dim ond lleiafrif bach iawn o'r holl ddarpar drethdalwyr fydd yn talu LTT mewn unrhyw flwyddyn benodol, sy'n wahanol i lawer o weithgareddau trethadwy eraill, lle mae trethdalwyr yn tynnu rhwymedigaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae tua 1.4 miliwn o anheddau yng Nghymru, ond dim ond tua 44,000 o drafodiadau preswyl a gafwyd yn 2023-24, ac o'r rhain dim ond cyfran fydd yn agored i dreth trafodiadau tir gan fod trafodiadau prif gyfradd o dan £225,000 wedi'u heithrio rhag treth. Bydd unrhyw

newidiadau yng nghyfansoddiad trafodiadau mewn perthynas â chyfansoddiad mewn data alldro diweddar yn cynhyrchu gwallau yn y rhagolwg.

- **Crynnodiad sylfaen treth.** Mae gan LTT atodlen dreth gynyddol: bydd trafodiad preswyl o £250,000 yn talu £1,500 mewn treth, tra bod trafodiad am bedair gwaith y pris hwn (£1,000,000) yn talu dros ddeugain gwaith yn fwy o dreth (£61,750). Yn 2023-24 daeth tua hanner y refeniw preswyl o'r 10 y cant uchaf o drafodiadau. Mae ein rhagolwg LTT hefyd yn sensitif i nifer fach o drafodiadau eiddo masnachol gwerth uchel. Mae hyn yn wir yn hanesyddol ac yn helpu i egluro gwallau'r gorffennol, o ran y sefyllfa yn ystod y flwyddyn a'r rhagolwg tymor canolog.
- **Newidiadau polisi cyson.** Mae'r gyfundrefn treth trafodiadau eiddo wedi bod yn destun newidiadau polisi dro ar ôl tro. Mae'r newidiadau hyn, yn enwedig pan gânt eu rhag-gyhoeddi, yn ychwanegu ansicrwydd i'n rhagolygon o ran sut y bydd trethdalwyr yn ymateb i'r cymhellion treth newydd y maent yn eu hwynebu. Roedd hyn yn berthnasol i godi'r trothwyon LTT ac SDLT dros dro ar anterth y pandemig.
- **Achub y blaen.** Lle mae cynnydd mewn trethi eiddo yn cael eu rhag-gyhoeddi mae'n caniatáu i bryniannau gael eu dwyn ymlaen er mwyn cael eu trethu ar y gyfradd is bresennol – gelwir hyn yn 'achub y blaen'. Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir os bydd toriadau treth yn cael eu rhag-gyhoeddi, gyda phrynwyr yn cael eu cymell i ohirio trafodiadau er mwyn elwa ar y gyfradd is. Er ei fod yn ffenomen a welir yn rheolaidd, mae'n anodd mesur union faint yr ymateb ymddygiadol a nifer y trafodiadau yr effeithir arnynt, er ein bod yn defnyddio tystiolaeth o gyfnodau blaenorol i'n harwain.⁶
- **Newidiadau polisi LTT yn y dyfodol.** Dim ond effeithiau polisiâu datganedig cyfredol y mae ein rhagolygon yn eu cynnwys, ac nid bwriadau neu uchelgeisiau polisi sy'n cael eu hystyried (gan adlewyrchu'r gofynion a osodwyd arnom gan Senedd y DU wrth sefydlu'r OBR). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar ymestyn y cyfnod ad-dalu ar gyfer y cyfraddau ychwanegol mewn amgylchiadau eithriadol, megis pan fo cladin anniogel⁷ a fyddai'n debygol o leihau derbyniadau.⁸ Byddwn ni'n cynnwys ei effaith, ac effaith uchelgeisiau polisi eraill, pan fydd y polisi'n ddigon cadarn ac wedi'i gostio.⁹

⁶ I gael gwybodaeth fanylach am hyn, gweler Mathews, P., *Papur Gwaith OBR Rhif10: Achub y blaen cyn newidiadau treth eiddo*, Hydref 2016.

⁷ Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, *Ad-daliad cyfraddau preswyl uwch Treth Trafodiadau Tir ar gyfer estyniad cyfnod pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol*, 16 Tachwedd 2021.

⁸ Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad gweinidogol a dogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn archwilio opsiynau ar gyfer amrywiadau lleol mewn cyfraddau treth trafodiadau tir ar ail gartrefi ac mae'n parhau â pharatoadau ymgynghori ar gyfer cyflwyno'r polisi hwn (Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, *Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ail gartrefi a'r dreth trafodiadau tir*, 15 Gorffennaf 2022).

⁹ Uchelgais polisi arall yw cyhoeddiad Rhagfyr 2022 ar y bwriad i ymestyn cynllun Cymorth i Brynu Cymru tan fis Mawrth 2025 (Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, *Dyfodol Cymorth i Brynu Cymru* o Ebrill 2023, 14 Rhagfyr 2022).

4 Treth gwarediadau tirlenwi

Cyflwyniad

4.1 Mae'r bennod hon:

- yn disgrifio'r **dreth gwarediadau tirlenwi** a godir yng Nghymru;
- yn nodi ein **methodoleg** ar gyfer rhagweld derbyniadau; ac
- yn cyflwyno ein **rhagolwg diweddarafa rhai** ansicrwyddau allweddol yn ei gylch.

Treth gwarediadau tirlenwi

4.2 Cyflwynwyd treth tirlenwi yn y DU ym 1996. Mae'n berthnasol i'r holl wastraff a waredir trwy dirlenwi ar safle trwyddedig oni bai bod y gwastraff wedi'i eithrio'n benodol. Yng Nghymru fe'i disodlwyd gan dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) o fis Ebrill 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod LDT wedi'i gynllunio i *"hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol trwy atal mwy o wastraff i safleoedd tirlenwi ac annog ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff"*.¹

4.3 Codir LDT fesul tonnelli o wastraff a waredir mewn safle tirlenwi. Mae'n daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, a disgwylir iddynt drosglwyddo'r costau i'r rhai sy'n gwaredu. Mae nifer fach o warediadau wedi'u heithrio o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, tra bod rhai gostyngiadau a disgowntiau ar gael hefyd. Cesglir y dreth gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r cyfraddau'n gyson â'r rhai yng ngweddill y DU ers cyflwyno LDT.

4.4 Caiff ein rhagolwg ei lywio gan faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a'r gyfradd dreth effeithiol a delir. Mae'r olaf yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau polisi ar gyfraddau, ond hefyd ar gyfansoddiad y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi gan fod tair cyfradd wahanol – 'cyfradd safonol', 'cyfradd is' a 'chyfradd gwarediadau anawdurdodedig'. Yn 2023-24 roedd refeniw o wastraff cyfradd safonol yn cyfrif am 94 y cant o gyfanswm y refeniw o LDT.

Methodoleg y rhagolwg

4.5 Mae'r rhagolwg LDT yn defnyddio model o'r gwaelod i fyny a weithredir ar ein rhan gan ddadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru. Y rhagdybiaethau a'r dyfarniadau sy'n cael eu

¹ Llywodraeth Cymru, *Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2016: Asesiadau Effaith*.

bwydo iddo yw rhai'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae methodoleg y rhagolwg yn syml – y prif gamau yw:

- sefydlu **amcangyfrif o fewn y flwyddyn** gan dynnu ar y data gweinyddol diweddaraf (a ffynonellau perthnasol eraill) i amcangyfrif lefel y derbyniadau yn y flwyddyn gyfredol;
- o'r sylfaen a ddarparwyd gan yr amcangyfrif hwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol, cynhyrchu **rhagolwg rhag-fesurau** tymor canolig drwy ddefnyddio model rhagolwg y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i luosi'r swm o wastraff atebol y rhagwelir y caiff ei anfon i safleoedd tirlenwi (sylfaen y dreth) gan y gyfradd dreth berthnasol; a
- cynhyrchu **rhagolwg ôl-fesurau** drwy ychwanegu effeithiau unrhyw fesurau polisi newydd.


Sefydlu amcangyfrif o fewn y flwyddyn

- 4.6** Mae'r rhan fwyaf o ffurflenni Treth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu derbyn gan ACC ar ddiwedd Ebrill, Gorffennaf, Hydref ac Ionawr (rhaid anfon ffurflenni erbyn diwrnod gwaith olaf y mis yn dilyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu). Mae ACC yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyhoeddi data alldro derbyniadau LDT bob chwarter.²
- 4.7** Mae ein rhagolwg o fewn y flwyddyn yn yWTO hwn yn seiliedig ar ddata alldro o hanner cyntaf 2024-25. Mae Siart 4.1 yn dangos rhaniad chwarterol y derbyniadau LDT blynyddol o 2020-21 ymlaen, sy'n dangos rhywfaint o natur dymhorol yn y swm o wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. Yn nodweddiadol, daw'r gyfran uchaf o dderbyniadau yn chwarteri cyntaf ac ail chwarter y flwyddyn. Yr eithriad i hyn yn y blynyddoedd diwethaf oedd y chwarter cyntaf yr effeithiwyd arno gan y cyfyngiadau symud yn 2020-21. Ers 2021-22, cyfran gyfartalog y refeniw llawn a dderbyniwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol oedd 57 y cant.

² Mae gan y rhan fwyaf o weithredwyr safleoedd tirlenwi gyfnod cyfrifyddu blynyddol o flwyddyn galendr. Mae nifer llai o weithredwyr safleoedd yn defnyddio cyfnodau cyfrifyddu gwahanol, sy'n golygu y gallai datganiadau data misol fod yn ddadlennol. Nid ydym yn defnyddio data gweinyddol misol ACC heb eu cyhoeddi wrth baratoi ein hamcangyfrifon o fewn y flwyddyn.

Treth gwarediadau tirlenwi

Siart 4.1: Canran y derbyniadau blynyddol o drethi tirlenwi o bob chwarter



Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru

Y rhagolwg rhag-fesurau

Sylfaen treth: faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi


4.8 Rhagwelir swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn y dyfodol drwy galibradu data Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyda data alldro ACC. Mae ein model yn didoli'r data hyn yn ôl cod 'catalog gwastraff Ewropeaidd' yn dunelli metrig sy'n agored i gyfraddau safonol ac is LDT. Mae hyn yn ein galluogi i gael gwared ar wastraff sydd wedi'i esemptio rhag LDT. Yna caiff y tunelli sy'n atebol i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu rhagamcanu gan ddefnyddio gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff awdurdodau lleol, datblygiadau seilwaith gwastraff, a rhagdybiaeth ynghylch llwybr gwastraff arall yn y dyfodol.

4.9 Mae sawl dewis arall yn lle anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys:

- **Ailgylchu a llosgi**, y mae eu lefelau'n dibynnu ar gapasiti'r seilwaith Cymreig sydd ar gael. O ystyried y sylfaen drethu gymharol fach yng Nghymru, gall newidiadau mewn seilwaith trin gwastraff amgen arwain at effeithiau cymharol fawr ar dderbyniadau LDT.
- **Allforio gwastraff**, a all fod yn rhatach na'i anfon i safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd mae dau ffactor allanol a allai gyfyngu ar faint yr allforion dros y tymor canolig – unrhyw newidiadau i berthynas fasnachu'r DU â'r UE a gwaharddiad Llywodraeth Tsieina ar fewnforio gwastraff solet. Gallai pob un gynyddu faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn y DU a Chymru (gan gynnwys gwastraff a gynhyrchir yn Lloegr) a chynrychioli risg ar i fyny â derbyniadau LDT. Byddai'r graddau y mae'r ffactorau hyn neu ffactorau eraill eisoes wedi effeithio ar dderbyniadau LDT yn cael ei nodi'n ymhlwg yn ein hamcangyfrif yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na thrwy addasiad penodol i'r rhagolwg.

- 4.10** Nid ydym yn modelu'r defnydd o'r dewisiadau amgen hyn yn benodol. Yn lle hynny, rydym yn rhagdybio eu bod yn darparu digon o le i ymdopi â thwf yn y dyfodol mewn gwastraff heb effeithio ar faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae lefel gronynnog y wybodaeth sydd ar gael i ni am seilwaith Cymru yn golygu y gallwn ni gynnwys newidiadau disgwylidiedig pan fo angen.
- 4.11** Mae maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn y DU gyfan wedi bod yn gostwng. Dengys Siart 4.2 y bu patrwm tebyg yng Nghymru tan y blynyddoedd diwethaf. Bu gostyngiad o fwy na 70 y cant yn y cyfaint a anfonwyd i safleoedd tirlenwi rhwng 2006-07 (3.8 miliwn o dunelli) a 2023-24 (1.0 miliwn o dunelli). Fodd bynnag, ers 2019-20 mae'r gostyngiad hwn wedi arafu, a gwelwyd cynnydd bach yn 2021-22 a 2022-23. Mae Siart 4.2 hefyd yn dangos, hyd at 2019-20, bod llai o wastraff wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi fesul uned o werth ychwanegol crynswth (GVA – mesur o weithgarwch economaidd). Rydym yn rhagdybio bod lefel y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn dilyn tueddiadau diweddar, gyda'r gyfradd is yn aros yn gyson dros gyfnod y rhagolwg, a'r gyfradd safonol yn dilyn tuedd ar i lawr, ond mae ansicrwydd ynghylch y farn hon.

Siart 4.2: Tunelledd gwastraff tirlenwi yng Nghymru o gymharu â gweithgarwch economaidd Cymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, SYG

Cyfradd effeithiol y dreth gwarediadau tirlenwi a delir

- 4.12** Mae dwy brif gyfradd ar gyfer LDT – cyfradd 'safonol' a chyfradd 'is'. Mae'r gyfradd is yn berthnasol i wastraff sy'n 'anadweithiol' – h.y. deunyddiau llai peryglus neu sy'n llygru lai fel brics, concrit a thywod. Mae'r gyfradd safonol yn berthnasol i bopeth arall nad yw wedi'i esemptio (gweler isod) neu heb awdurdod.³

³ Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno trydedd gyfradd 'gwarediadau anawdurdodedig' sy'n berthnasol i bob gwarediad a wneir y tu allan i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, ni waeth a fyddent wedi bod yn gymwys ar gyfer y cyfraddau safonol neu is. Mae'r gyfradd

Treth gwarediadau tirlenwi

- 4.13 Mae ein rhagolwg rhag-fesurau yn rhagdybio bod y gyfradd safonol a chyfradd is o LDT ill dau yn cynyddu yn unol â chwyddiant RPI ym mhob blwyddyn o'r rhagolwg (yn unol â rhagdybiaeth mynegeo ddiofyn Llywodraeth y DU).⁴
- 4.14 Yn yr un modd â threth tirlenwi y DU, mae deddfwriaeth LDT yn caniatáu esemptiadau a rhyddhad. Pan fo gwarediad wedi'i esemptio, er enghraifft o fewn mynwent anifeiliaid anwes, nid oes rhwymedigaeth dreth, ac nid oes angen i weithredwr y safle ei gofnodi ar ffurflen dreth. Pan fo gwarediad yn gymwys ar gyfer rhyddhad, megis pan fo'n cynnwys deunydd a dynnwyd o ddŵr drwy garthu, mae angen i weithredwr y safle roi cyfrif amdano, ond gellir hawlio'r rhyddhad drwy'r ffurflen dreth. Mae'r gyfradd effeithiol a delir yn dibynnu nid yn unig ar gyfraddau statudol ac esemptiadau, ond hefyd ar gyfansoddiad gwarediadau gwastraff. Yn 2023-24, y gyfradd effeithiol a dalwyd oedd £28.20 am bob tonnell o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. Yn ystod dau chwarter cyntaf 2024-25 cododd y gyfradd dreth effeithiol a dalwyd i £36.5 fesul tonnell o wastraff, o ganlyniad i gynnydd yn y gyfran o wastraff cyfradd safonol.

Y Rhagolwg ôl-fesurau

- 4.15 Y cam olaf ym mhroses ein rhagolwg yw ychwanegu effaith mesurau polisi newydd a gyhoeddwyd ers cyhoeddi ein rhagolwg blaenorol. Ar gyfer treth tirlenwi ac LDT, mae'r effeithiau hyn fel arfer yn fach, er y gallant fod yn destun rhywfaint o ansicrwydd o hyd. Er enghraifft, mae polisi Datganiad yr Hydref 2023 Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynllun 'cyfrifoldeb estynedig cynhyrchydd' newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio ysgwyddo'r gost o reoli'r deunydd pacio unwaith y daw'n wastraff, a mesur ailgylchu yn y gweithle gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024 ac a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus ddidoli eu gwastraff ar gyfer ailgylchu.⁵ Mae disgwyl i'r ddau gynllun ostwng derbyniadau treth tirlenwi trwy leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Y Rhagolwg treth gwarediadau tirlenwi

- 4.16 Gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifir uchod ac yn seiliedig ar ddata alldro LDT ar gyfer dau chwarter cyntaf 2024-25, mae'r adran hon yn disgrifio ein rhagolwg diweddaraf a'r newidiadau ers mis Chwefror.

Alldro derbyniadau

- 4.17 Mae Siart 4.3 yn dangos bod derbyniadau hanner cyntaf 2024-25 wedi cynyddu £1.3 miliwn (8 y cant) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, wedi'i ysgogi gan gynnydd yn swm y gwastraff cyfradd safonol a anfonir i safleoedd tirlenwi. O'i gymharu â'r llynedd, rydym yn disgwyl i dderbyniadau barhau'n uwch drwy gydol gweddill 2024-25, gyda'r derbyniadau a


hon wedi'i gosod ar 150 y cant o'r gyfradd safonol. Mae cyfradd 2024-25 ar gyfer gwarediadau o'r fath wedi'i gosod ar £155.55 y dunnell o wastraff. Disgwylir iddo godi i £189.25 yn 2025-26.

⁴ Mae'r holl gyfraddau yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

⁵ Llywodraeth Cymru, Ailgylchu yn y Gweithle, gadewch i ni ei ddatrys.

ragwelir yn dod i gyfanswm o £30.3 miliwn. O'i gymharu â'r gyfres amser tymor hwy, fodd bynnag, mae refeniw LDT yn parhau i fod yn isel yn hanesyddol.

Siart 4.3: Derbyniadau LDT chwarterol



Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru

Y rhagolwg diweddaraf

4.18 Ers ein rhagolwg mis Chwefror, rydym wedi diwygio derbyniadau i fyny £3 miliwn ar gyfartaledd yn 2024-25 a £6 miliwn bob blwyddyn wedi hynny, cynnydd blynyddol cyfartalog o 21 y cant. Mae hyn yn adlewyrchu dau ffactor:

- yn gyntaf, **y cyfaint a'r gyfran o wastraff cyfradd safonol uwch na'r disgwyl yn hanner cyntaf 2024-25** a ddisgrifir uchod, ac rydym yn rhagdybio y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol (sy'n cyfrif am tua hanner yr adolygiad); ac
- yn ail, mae'r **newid polisi i gynyddu cyfraddau safonol ac is LDT** (a ddisgrifir ym mharagraff 1.6) hefyd yn cynyddu'r rhagolwg ar gyfartaledd o £2 miliwn y flwyddyn o 2025-26 ymlaen. Mae'r gyfradd safonol yng Nghymru bellach yn cyd-fynd â'r gyfradd safonol ar gyfer treth tirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a godwyd yng Nghyllideb Mawrth 2024 Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cyferbynnu â'r rhagolwg a oedd yn sail i'n EFO ym mis Hydref 2024, cyn cyhoeddiad Cyllideb Llywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr a oedd yn cydraddoli'r gyfradd safonol â thirlenwi Lloegr, a oedd yn cynnwys rhywfaint o wastraff o Loegr yn croesi'r ffin i Gymru i fanteisio ar gyfradd safonol is.

Tabl 4.1: Y Rhagolwg LDT

	£ miliwn					
	Alldro 2023-24	Rhagolwg				
		2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29 2029-30
Rhagolwg Chwefror	30	28	26	25	25	24
Rhagolwg Rhagfyr	30	31	32	31	31	30 29
Newid		3	6	6	6	6
ac o hyn:						
Data alldro		2	2	2	2	2
Modelu ac arall		0	1	1	1	1
Penderfynyddion		0	3	3	3	3

Ffynhonnell: OBR

Risgiau ac ansicrwyddau

4.19 Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r prif ansicrwyddau ynghylch ein rhagolwg LDT canolog. Ni fyddem yn disgwyl i'r risg a achosir gan unrhyw un o'r rhain fod yn arbennig o fawr. Maent yn cynnwys:

- Rhagdybir y bydd **cyfaint net y gwastraff sy'n codi** yn aros yn gyson dros gyfnod y rhagolwg. Mae newidiadau yn seilwaith Cymru, megis cynnydd mewn llosgi, yn golygu bod y rhagolwg ar gyfer tunelli o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi gostwng yn flaenorol. Fel y dangosodd Siart 4.2, mae gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi gostwng dros amser, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae'r duedd hon wedi gwastatáu. Mae hyn yn dangos sgôp y sylfaen drethu i'n synnu ar y naill ochr a'r llall i'n rhagolwg canolog.
- Mae pob treth yn amodol ar rywfaent o **ddiffyg cydymffurfio**, yn amrywio o gangymeriadau syml i weithgarwch troseddol bwriadol. Ar lefel y DU, mae CThEF yn defnyddio technegau ystadegol i fesur y gwahaniaeth rhwng y rhwymedigaeth treth ddamcaniaethol a'r hyn a delir mewn gwirionedd, sef y 'bwlch treth'. Ei hamcangyfrif diweddaraf o'r bwlch treth ar gyfer treth dirlenwi'r DU yw 14.5 y cant neu £100 miliwn.⁶ Nid oes amcangyfrif ar gyfer bwlch treth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ond pe byddai'r bwlch yr un fath o ran canran, byddai hyn yn awgrymu na chasglwyd tua £5 miliwn o dderbyniadau posibl yn 2023-24. Nid oes gennym ddigon o wybodaeth eto am weithgareddau cydymffurfio LDT ACC i gael safbwynt cadarn felly, am y tro, mae ein rhagolwg yn rhagdybio'n ymhlyg na fydd unrhyw newid yn y gyfradd (anhysbys ar hyn o bryd) o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Byddai unrhyw newidiadau yn y gyfradd honno yn peri risg i dderbyniadau.
- Nid yw LDT ar **warediadau anawdurdodedig** yn dreth hunanasesu, ac yn lle hynny mae'r rhwymedigaeth dreth yn deillio o ACC yn nodi achosion addas ac yn cyhoeddi hysbysiadau codi tâl. Dechreuodd ACC gyhoeddi hysbysiadau i drethdalwyr posibl yn 2021-22, ac yn 2022-23 llwyddodd i godi eu dau achos cyntaf ar gyfradd dreth

⁶ Mae hyn yn ymwneud â 2021-22. I weld rhagor o fanylion gweler rhifyn 2023 Mesur bylchau treth CthEF.

gwarediadau anawdurdodedig LDT.⁷ Mae ACC yn bwriadu cynyddu ei weithgareddau gweithredol dros y blynyddoedd i ddod, a allai arwain at refeniw ychwanegol. Byddai'r swm a gesglir yn dibynnu ar adnoddau, cynllunio a risgiau ymglyfreitha.

- Mae ein rhagolwg yn cymryd yn ganiataol bod digon o **gapasiti llosgi ac ailgylchu** yng Nghymru i amsugno unrhyw gynnydd mewn gwastraff. Byddai angen ailedrych ar y rhagdybiaethau hyn pe byddai problemau gyda chapasiti'r seilwaith, er enghraifft pe byddai llosgydd mawr oddi ar-lein am gyfnod sylweddol neu pe byddai capasiti newydd yn cael ei ohirio. Byddai digwyddiadau o'r fath yn awgrymu bod cyfran uwch o gyfanswm y gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi na'r hyn a rhagdybiwyd yn ymhlyg yn ein rhagolwg ac felly derbyniadau LDT uwch.
- **Ymatebion ymddygiadol i newidiadau polisi.** Roedd Llywodraeth Cymru wedi alinio cyfraddau LDT yn flaenorol â chyfraddau treth tirlenwi'r DU. Yn ei Chyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cadw'r gyfradd safonol yn gyson â'r gyfradd dreth dirlenwi yn y DU, ond mae wedi cynyddu'r gyfradd is o gymharu â chyfradd is y DU. Felly, rydym yn disgwyl yn awr i rywfaint o wastraff gael ei ddargyfeirio dros y ffin. Mae cyfran sylweddol o'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn tarddu o Loegr.⁸ At hynny, fel y dengys Ffigur 4.1, mae nifer o safleoedd tirlenwi yn gymharol agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, felly mae'n amlwg bod lle i ymatebion ymddygiadol o'r fath ddigwydd yn dilyn y gwahaniaeth polisi hwn (er mai dim ond cyfran fach o'r sylfaen dreth gyffredinol yw gwastraff o fewn cwrpas y gyfradd is).⁹ Byddai'r graddau y gallai hyn ddigwydd yn dibynnu ar sut y bydd yr arbediad treth posibl yn cymharu â'r costau trafndiaeth a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag anfon gwastraff i safle tirlenwi yn amodol ar y cyfraddau treth is. Mae hyn yn cynrychioli risg i'n rhagolwg. Yn yr un modd, mae'r ymateb ymddygiadol i'r rheoliadau ailgylchu busnes newydd yn parhau i fod yn ansicr.

⁷ Awdurdod Cyllid Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022 i 2023 Medi 2023*.

⁸ Mae data gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod gwastraff o Loegr bob blwyddyn rhwng 2018-19 a 2023-24 yn cyfrif am 16 y cant o'r gwastraff cyffredinol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

⁹ Mae'r coridor 60 milltir o'r ffin yn ddarluniadol yn unig.

Treth gwarediadau tirlenwi

Ffigur 4.1: Safleoedd tirlenwi yng Nghymru ac o fewn 60 milltir i'r ffin â Lloegr



A Rhagolygon sy'n ofynnol ar gyfer yr addasiadau grant bloc

- A.1** Mae'r grant bloc yn fecanwaith ar gyfer trosglwyddo arian o Lywodraeth y DU i'r llywodraethau datganoledig ac mae'n cael ei ddyrannu o fewn y terfynau gwariant adrannol a bennir gan y Trysorlys. Mae'r grantiau bloc ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Alban yn cael eu haddasu yn unol â'u fframweithiau cyllidol priodol.¹ Nid oes gan yr OBR unrhyw ran uniongyrchol yn y penderfyniadau gwario hyn na thrafodaethau grant bloc, ond mae'r setliadau gwariant yn tynnu ar ein rhagolygon treth.
- A.2** Pan fydd treth wedi'i datganoli, mae'r grant bloc yn cael ei leihau gan swm sy'n cyfateb i'r refeniw a fyddai wedi cael ei godi gan Lywodraeth y DU pe na bai'r trethi hynny wedi'u datganoli. Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno'r rhagolygon sy'n ofynnol ar gyfer y mecanwaith addasu grant bloc hwn. Mae'r rhain i raddau helaeth yn ymwneud â refeniw Llywodraeth y DU o'r trethi sy'n cyfateb i'r rhai sydd wedi'u datganoli. Ar gyfer y tair treth a gwmpesir yn yr adroddiad hwn, treth cyfatebol Llywodraeth y DU (sy'n ymwneud â Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob achos) yw treth incwm 'di-arbedion, di-ddifidendau', treth dir y dreth stamp a threth tirlenwi.
- A.3** Mae'r methodolegau rhagolygu ar gyfer trethi Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i raddau helaeth yr un fath â'r rhai a ddisgrifir ar gyfer Cymru ym Mhenodau 2 i 4 ac ar dudalennau perthnasol ein gwefan. Yn gyntaf rydym yn sefydlu amcangyfrif o fewn y flwyddyn gan ddefnyddio'r data gweinyddol diweddaraf i amcangyfrif lefel y derbyniadau yn 2024-25. Yna, rydym yn rhaglunio hynny hyd at bum mlynedd gan ddefnyddio'r modelau rhagweld priodol a'n barn ein hunain. Daw'r penderfynyddion economaidd a ddefnyddir o'n rhagolwg Economaidd a chyllidol *ym mis Hydref 2024*.
- A.4** Mae tablau A.1 i A.4 yn cymharu ein rhagolygon cyfredol ar gyfer trethi datganoledig Cymru (a'r Alban) â'u cymheiriaid Llywodraeth y DU (sy'n ymwneud â Lloegr a Gogledd Iwerddon). Mae ein rhagolygon treth incwm yn adlewyrchu'r pecyn o fesurau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yng Nghyllideb Hydref 2024.² Yn yr hir-dymor, bydd gwahaniaethau yn ein rhagolygon treth incwm yn adlewyrchu tybiaethau am dwf cymharol y boblogaeth yn bennaf. Mae gwahaniaethau yn ein rhagolygon ar gyfer trethi trafodion eiddo yn deillio o strwythur mwy gynyddraddol atodiad treth Cymru a'r Alban, sy'n sicrhau enillion refeniw uwch o lusgiad cyllidol wrth i brisiau tai godi.

¹ Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016, a'r cytundeb rhwng Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth yr Alban, Awst 2023.

² Darperir y rhestr lawn o fesurau a'u dadansoddiadau costau cysylltiedig yn Nhabl atodol 3.11, sydd ar gael ar ein gwefan.

Tabl A.1: Treth incwm ar incwm nad yw'n gynilion, incwm nad yw'n difidend

	£ biliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Treth incwm NSND y DU gyfan	227.6	253.2	282.4	301.9	315.3	327.2	337.9	351.0
ac o hyn:								
Treth incwm Llywodraeth Cymru (sail CTIC)	2.6	2.9	3.3	3.5	3.6	3.8	3.9	4.1
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU o Gymru	3.4	3.9	4.4	4.7	4.9	5.2	5.3	5.6
Treth incwm yr Alban	15.2	17.2	19.2	20.3	21.1	21.8	22.4	23.1
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon	206.3	229.2	255.5	273.5	285.6	296.5	306.3	318.3
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU ¹	209.8	233.1	259.9	278.1	290.5	301.7	311.6	323.9
Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach								
Treth incwm NSND y DU gyfan		11.3	11.5	6.9	4.4	3.8	3.3	3.9
ac o hyn:								
Treth incwm Llywodraeth Cymru (sail CTIC)		11.7	11.4	6.3	5.0	4.0	3.2	4.0
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU o Gymru		13.2	12.4	7.1	5.6	4.6	3.2	4.1
Treth incwm yr Alban		13.2	12.1	5.6	3.9	3.3	2.6	3.3
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon		11.1	11.5	7.0	4.4	3.8	3.3	3.9
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU ¹		11.1	11.5	7.0	4.5	3.8	3.3	3.9
¹ Treth incwm NSND y DU gyfan ac eithrio treth incwm yr Alban a threth incwm Llywodraeth Cymru (sail CTIC).								
Ffynhonnell: OBR								

Rhagolygon sy'n ofynnol ar gyfer yr addasiadau grant bloc

Tabl A.2: Cyfraddau Cymru a threth incwm gyfatebol Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ôl rhagolwg band

	£ blliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)	75.1	83.0	92.3	98.3	102.6	106.2	109.6	113.9
ac o hyn:								
Cyfradd sylfaenol	49.6	54.6	60.3	63.7	66.3	68.3	70.5	73.2
Cyfradd uwch	15.3	15.7	17.8	19.3	20.2	21.1	21.5	22.1
Cyfradd ychwanegol	10.2	12.7	14.1	15.3	16.0	16.7	17.6	18.6
Cyfraddau Cymru	2.6	2.9	3.3	3.5	3.6	3.8	3.9	4.1
ac o hyn:								
Cyfradd sylfaenol	2.2	2.5	2.7	2.9	3.0	3.1	3.2	3.3
Cyfradd uwch	0.3	0.4	0.4	0.5	0.5	0.5	0.5	0.6
Cyfradd ychwanegol	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1
Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach								
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)		10.5	11.2	6.5	4.3	3.5	3.2	3.9
ac o hyn:								
Cyfradd sylfaenol		10.1	10.6	5.6	4.1	3.0	3.2	3.8
Cyfradd uwch		2.9	13.3	8.1	5.0	4.4	1.9	2.6
Cyfradd ychwanegol		24.0	11.2	8.4	4.4	4.7	5.1	5.6
Cyfraddau Cymru		11.6	11.4	6.3	5.0	4.0	3.2	4.0
ac o hyn:								
Cyfradd sylfaenol		10.7	10.6	5.7	4.5	3.6	3.3	4.0
Cyfradd uwch		11.4	16.0	9.4	7.3	6.4	2.3	3.5
Cyfradd ychwanegol		45.6	13.7	9.4	8.2	5.5	6.2	7.1
Ffynhonnell: OBR								

Ffynhonnell: OBR

Tabl A.3: Trethi trafodion eiddo

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Trethi trafodiadau eiddo y DU gyfan	12,664	14,008	16,028	18,400	20,844	23,221	25,307
ac o hyn:							
LTT (Cymru)	270	319	338	371	410	446	481
LBTT (Yr Alban)	784	975	1,038	1,120	1,221	1,319	1,411
SDLT (Lloegr a Gogledd Iwerddon)	11,610	12,713	14,652	16,909	19,213	21,456	23,415
Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach							
Trethi trafodiadau eiddo y DU gyfan		10.6	14.4	14.8	13.3	11.4	9.0
ac o hyn:							
Treth trafodiadau tir (Cymru)		18.4	5.8	9.9	10.4	8.8	7.7
LBTT (Yr Alban)		24.3	6.5	7.8	9.0	8.1	7.0
SDLT (Lloegr a Gogledd Iwerddon)		9.5	15.2	15.4	13.6	11.7	9.1

Ffynhonnell: OBR

Tabl A.4: Trethi tirlenwi

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Trethi tirlenwi y DU gyfan	569	588	444	408	295	311	320
ac o hyn:							
Treth gwarediadau tirlenwi (Cymru)	30	31	32	31	31	30	29
Treth tirlenwi yr Alban	68	63	37	16	17	17	18
Treth tirlenwi (Lloegr a Gogledd Iwerddon)	471	494	374	361	248	264	273
Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach							
Trethi tirlenwi y DU gyfan		3.4	-24.6	-7.9	-27.7	5.4	2.7
ac o hyn:							
Treth gwarediadau tirlenwi (Cymru)		3.4	5.6	-3.1	-2.3	-2.4	-2.4
Treth tirlenwi yr Alban		-7.5	-41.6	-56.4	3.4	3.1	2.5
Treth tirlenwi (Lloegr a Gogledd Iwerddon)		5.0	-24.3	-3.6	-31.3	6.5	3.3
Ffynhonnell: OBR							

Mynegai siartiau a thablau

Pennod 2 Cyfraddau treth incwm Cymru

Chart 2.1: Rhaniadau enghreifftiol rhwng rhwymedigaethau treth incwm Llywodraeth Cymru a'r DU	7
Chart 2.2: Cyfran Cymru o rwymedigaethau treth incwm a phoblogaeth y DU	10
Chart 2.3: Rhwymedigaethau treth incwm Cymru a'r DU fesul person yn 2021-22	11
Chart 2.4: Cyfradd cyflogaeth ar gyfer y DU a Chymru	13
Chart 2.5: Newid yn y trethdalwyr fesul band treth rhwng 2010-11 a 2021-22	14
Table 2.1: Incymau cyfartalog trethdalwyr yn 2021-22 yn ôl math	15
Table 2.2: Mesurau gwahanol o enillion cyfartalog cyflogaeth yn 2021-22	15
Chart 2.6: Cyfraddau treth incwm effeithiol yng Nghymru a'r DU	16
Chart 2.7: Cyfran o gyfanswm incwm trethdalwyr yn y DU a Chymru fesul band incwm ..	17
Chart 2.8: Cyfrannau Cymru o gyfanswm rhwymedigaethau treth incwm y DU: yr holl dreth gan drethdalwyr Cymru yn erbyn cyfraddau treth incwm Cymru	18
Table 2.3: Paramedrau treth incwm Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru	20
Table 2.4: Rhagolwg y DU gyfan o rwymedigaethau treth ar incwm heb fod yn gynilion, heb fod yn ddifidend	21
Table 2.5: Cyfran o rwymedigaethau rhag-fesurau yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru	22
Table 2.6: Rhagolwg cyfraddau treth incwm Cymru	23
Table 2.7: Rhagolwg cyfraddau Cymru o rwymedigaethau treth ar incwm NSND fesul band treth.....	23
Table A: Rhagolygon olynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a'r gyfran o rwymedigaethau rhag-fesurau sy'n ddarostyngedig i gyfradd Cymru (2022-23)	25
Chart A: Gwahaniaethau olynol a ragwelir ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru (2022-23)	26

Pennod 3 Treth trafodiadau tir

Chart 3.1: Twf prisiau tai: Cymru yn erbyn y DU gyfan.....	29
Chart 3.2: Trafodiadau eiddo preswyl	30
Chart 3.3: Trafodiadau eiddo masnachol	30
Chart 3.4: Tueddiadau hanesyddol mewn prisiau tai	31
Table 3.1: Rhagolygon ar gyfer prisiau a thrafodiadau eiddo yng Nghymru	32
Chart 3.5: Derbyniadau LTT preswyl cronrus	33
Chart 3.6: Derbyniadau treth trafodiadau tir masnachol cronrus	33
Table 3.2: Y Rhagolwg LTT.....	34
Table 3.3: Y Rhagolwg LTT prif gyfraddau preswyl.....	35
Table 3.4: Y Rhagolwg LTT Cyfraddau preswyl ychwanegol	35
Table 3.5: Y Rhagolwg LTT masnachol	36

Pennod 4 Treth gwarediadau tirlenwi

Chart 4.1: Canran y derbyniadau blynyddol o drethi tirlenwi o bob chwarter	41
--	----

Chart 4.2: Tunelledd gwastraff tirlenwi yng Nghymru o gymharu â gweithgarwch economaidd Cymru.....	42
Chart 4.3: Derbyniadau LDT chwarterol	44
Table 4.1: Y Rhagolwg LDT	45
Figure 4.1: Safleoedd tirlenwi yng Nghymru ac o fewn 60 milltir i'r ffin â Lloegr	47

Atodiad A Rhagolygon sy'n ofynnol ar gyfer yr addasiadau grant bloc	
Table A.1: Treth incwm ar incwm nad yw'n gynilion, incwm nad yw'n difidend	50
Table A.2: Cyfraddau Cymru a threth incwm gyfatebol Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ôl rhagolwg band	51
Table A.3: Trethi trafodion eiddo	51
Table A.4: Trethi tirlenwi	52

